

Cylchlythyr | Circular

Cyfarwyddyd ymgeisio cynlluniau mynediad a ffioedd 2023/24

Dyddiad: 28 Mehefin 2022
Cyfeirnod: W22/19HE
At: Gyrff llywodraethu sefydliadau yng Nghymru sy'n ymgeisio i gael eu rheoleiddio gan CCAUC i'w dynodi'n awtomatig ar gyfer eu cyrsiau amser llawn a TAR (SAC) ar gyfer 2023/24
Cyswllt
Enw: Steve Williams
E-bost: cyngorrheoleiddio@hefcw.ac.uk

Mae CCAUC yn cyhoeddi'r cyfarwyddyd hwn i gynorthwyo sefydliadau i wneud cais am gynllun mynediad a ffioedd. Nod Llywodraeth Cymru yw bod cynlluniau mynediad a ffioedd yn gwneud cyfraniad arwyddocaol a pharhaus at ehangu mynediad i addysg uwch yng Nghymru.

Cynlluniau mynediad a ffioedd cymeradwy yw'r cyfrwng i sefydliadau gael eu rheoleiddio gan CCAUC. Bydd cyrsiau gradd amser llawn a TAR (SAC) yr holl sefydliadau sy'n cael eu rheoleiddio gan CCAUC yn cael eu dynodi'n awtomatig ar gyfer cefnogaeth myfyrwyr. Gelwir y cyrsiau hyn yn gyrsiau cymwys.

Mae'r wybodaeth ganlynol yn dangos y prosesau i'w dilyn wrth i sefydliad gyflwyno cynllun mynediad a ffioedd am y tro cyntaf, a phroses gymeradwyo CCAUC. Rydym wedi cysylltu ar wahân â sefydliadau a reoleiddir eisoes, i esbonio'r hyn a ddisgwylir ganddynt.

Mae cyfarwyddiadau atodol wedi'u darparu ar gyfer sefydliadau a reoleiddir eisoes.

Os oes angen y ddogfen hon arnoch
mewn fformat hygyrch arall,
anfonwch e-bost i info@hefcw.ac.uk.



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Cynnwys

Rhif tudalen

Cyflwyniad	4
Cydraddoldeb ac amrywiaeth ac asesiad effaith CCAUC	7
Rhagor o wybodaeth a chyngor	8
Ffurflen Gais Cynllun Mynediad a Ffioedd.....	9
Rhan Un: Gwybodaeth Reoleiddiol.....	9
Rhan Dau: Cynlluniau Mynediad a Ffioedd.....	19
Hyd y cynllun mynediad a ffioedd.....	19
Tudalen cynnwys.....	20
Crynodeb gweithredol.....	20
Adran 1 - Lefelau ffioedd.....	20
Adran 2 - Partneriaeth â Myfyrwyr.....	22
Adran 3 - Nodi grwpiau tangynrychioledig.....	23
Adran 4 - Amcanion, gweithgareddau tanategol, grwpiau tangynrychioledig a thargedau, fel y bônt yn berthnasol er mwyn cefnogi cyfle cyfartal a hyrwyddo AU.....	25
Adran 5 - Monitro cydymffurfio â gofynion cyffredinol cynllun mynediad a ffioedd 2023/24.....	30
Adran 6 - Gwerthuso cynlluniau mynediad a ffioedd	30
Rhan Tri: Tystiolaeth i CCAUC i gefnogi'r cais cynllun mynediad a ffioedd.....	32
Tystiolaeth a data i gefnogi amcanion, targedau a gweithgareddau'r cynllun	32
Tystiolaeth a data i gefnogi ffocws y cynllun ar grwpiau tangynrychioledig	33
Atodiad B - gwybodaeth i gefnogi ffurflen gais y cynllun mynediad a ffioedd	34
Sut y bydd CCAUC yn rheoli proses cynlluniau mynediad a ffioedd 2023/24.....	44
Cyflwyno.....	44
Asesiad CCAUC o gynlluniau mynediad a ffioedd.....	45
Proses CCAUC ar gyfer cymeradwyo a gwrthod cynlluniau mynediad a ffioedd.....	45
Amrywio cynllun mynediad a ffioedd.....	48
Atodiad 1: Ymrwymadau sefydliadau a reoleiddir.....	49

Atodiadau

Darperir ffurflen gais y cynllun mynediad a ffioedd mewn dau atodiad:

Atodiad A – Ffurflen Gais sy'n cynnwys gwybodaeth reoleiddiol a'r cynllun mynediad a ffioedd (templod Word)

Atodiad B - Incwm ffioedd, lleoliadau, gwybodaeth ariannol, buddsoddi mewn ffioedd, a gwybodaeth am dargedau'r cynllun mynediad a ffioedd (templod Excel)

Cyflwyniad

1. Mae CCAUC yn cyhoeddi'r cyfarwyddyd hwn i gynorthwyo sefydliadau i wneud cais am gynllun mynediad a ffioedd. Nod Llywodraeth Cymru yw bod cynlluniau mynediad a ffioedd yn gwneud cyfraniad arwyddocaol a pharhaus at ehangu mynediad i addysg uwch yng Nghymru.
2. Cynlluniau mynediad a ffioedd cymeradwy yw'r cyfrwng i sefydliadau gael eu rheoleiddio gan CCAUC. Bydd cyrsiau gradd amser llawn a TAR (SAC) yr holl sefydliadau sy'n cael eu rheoleiddio gan CCAUC yn cael eu dynodi'n awtomatig ar gyfer cefnogaeth myfyrwyr. Gelwir y cyrsiau hyn yn gyrsiau cymwys.
3. Dylid cyflwyno ceisiadau cynllun mynediad a ffioedd i CCAUC drwy lenwi'r ffurflen gais a geir yn **Atodiad A** a darparu'r wybodaeth ategol y gofynnir amdani yn **Atodiad B**. Gan adeiladu ar newidiadau i'n proses o ganlyniad i bandemig Covid-19 a chynigion i ddiwygio'r broses o reoleiddio addysg drydyddol, byddwn yn darparu cyfarwyddiadau atodol i sefydliadau a reoleiddir eisoes.
4. Dim ond sefydliadau yng Nghymru sy'n darparu addysg uwch ac sy'n elusennau a gaiff gyflwyno ceisiadau cynlluniau mynediad a ffioedd. Rhaid i'r sefydliadau ddarparu gwybodaeth ddigonol yn dystiolaeth eu bod yn bodloni'r meini prawf hyn, yn ogystal â chyflwyno gwybodaeth am ansawdd eu haddysg, eu hyfywedd ariannol a'r rheolaeth ar faterion ariannol.
5. Mae cyrff llywodraethu sefydliadau sy'n gwneud cais am gynlluniau mynediad a ffioedd yn gyfrifol am y ceisiadau a gyflwynir i CCAUC ac, os cânt eu cymeradwyo gan CCAUC, am gydymffurfio â gofynion y system reoleidiol yng Nghymru, fel y nodir yn **Atodiad 1**.
6. Rhaid i gynlluniau mynediad a ffioedd cymeradwy nodi'r ffioedd ar gyfer cyrsiau gradd llawn amser a TAR (SAC) y bydd y sefydliadau a reoleiddir yn eu codi neu ddarparu dull o bennu ffi. Ni all y ffioedd fod yn uwch na'r terfynau ffioedd uchaf a bennir gan Lywodraeth Cymru.¹
7. Dim ond sefydliadau a reoleiddir fydd yn gallu ychwanegu cyrsiau gradd llawn amser at System Rheoli Cyrsiau'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr (SLC). Os darperir addysg uwch ar ran sefydliad a reoleiddir, mae'r sefydliad a reoleiddir yn gyfrifol am gynnwys y cyrsiau hyn ar System Rheoli Cyrsiau'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr.
8. Mae'r cyfarwyddyd hwn yn nodi'r wybodaeth y mae'n rhaid i sefydliad ei chynnwys wrth gyflwyno cais cynllun mynediad a ffioedd a'r broses ymgeisio.
9. Prin yw'r diwygiadau i'r fersiwn ddiweddaraf hon o'r cyfarwyddyd, ac maent i raddau helaeth yn adlewyrchu'r rhaglen Ymgynghraedd yn Ehangach newydd.

¹ [Rheoliadau Addysg Uwch \(Symbiau\) \(Cymru\) 2015](#)

10. Mae cynlluniau ar y gweill ar hyn o bryd i greu Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil i Gymru erbyn 2023. Canlyniad hyn fydd diddymu CCAUC erbyn dechrau 2024 ar yr hwyraf, gyda'r Comisiwn newydd, fel corff rheoleiddio, yn goruchwyllo addysg uwch yng Nghymru. Darperir rhagor o wybodaeth maes o law.

Deddfwriaeth a dogfennau polisi

11. Mae'r cyfarwyddyd hwn yn seiliedig ar y canlynol:
- Deddf [Addysg Uwch \(Cymru\) 2015](#) (Deddf 2015), y nodiadau esboniadol a'r Rheoliadau cysylltiedig²
 - [Welsh Government Guidance on the preparation for delivery of the new regulatory system](#)
 - [Cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru ar baratoi ar gyfer gweithredu'r system reoleiddio newydd yn llawn ar gyfer addysg uwch yng Nghymru](#) a
 - [Chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru i CCAUC ar gynlluniau mynediad a ffioedd](#).
12. Mae cyfarwyddyd cynlluniau mynediad a ffioedd CCAUC wedi'u datblygu gan ystyried y canlynol:
- [Deddf Cydraddoldeb \(2010\)](#)
 - Rheoliadau [Deddf Cydraddoldeb \(2010\) \(Dyletswyddau Statudol\) \(Cymru\) \(2011\)](#)
 - [Deddf yr Amgylchedd \(2016\)](#)
 - [Rheoliadau Safonau'r Gymraeg \(2017\)](#)
 - [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) \(2015\)](#)
 - Strategaeth Gorfforaethol newydd CCAUC (i'w chyhoeddi yn dilyn cymeradwyaeth y Gweinidog, a
 - [Datganiad Llesiant CCAUC](#) (2018)³.
13. Dylai darparwyr addysg uwch sy'n gwneud cais am gynllun mynediad a ffioedd ystyried y cyhoeddiadau canlynol gan CCAUC wrth gwblhau eu cais:
- [Strategaeth Gorfforaethol](#)
 - [Llythyrau cylch gwaith at CCAUC oddi wrth Lywodraeth Cymru](#)
 - [Cynllun Cydraddoldeb Strategol](#)
 - [Mesurau cenedlaethol CCAUC](#)
 - [Datganiad o Ymyriad](#)
 - [Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru](#)
 - [Datganiad Polisi Iechyd a Llesiant mewn Addysg Uwch](#)
 - [Safonau'r Gymraeg: Cynllun Gweithredu](#)
 - [Y Cod Rheolaeth Ariannol](#)

² [Rheoliadau Addysg Uwch \(Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol\) \(Cymru\) \(Diwygio\) 2016](#); [Rheoliadau Addysg Uwch \(Cynlluniau Mynediad a Ffioedd\) 2015](#); [Rheoliadau Addysg Uwch \(Symiau\) \(Cymru\) 2015](#); [Rheoliadau Addysg Uwch \(Dynodi Darparwyr Addysg Uwch\) \(Cymru\) 2015](#); [Rheoliadau Addysg Uwch \(Cynlluniau Mynediad a Ffioedd\) \(Cymru\) 2015](#); [Rheoliadau Addysg Uwch \(Cynlluniau Mynediad a Ffioedd\) \(Hysbysiadau, Gweithdrefnau a Chyhoeddi\) \(Cymru\) 2016](#).

³ Bydd hyn yn cael ei ddiwygio cyn gynted ag y bo Strategaeth Gorfforaethol newydd CCAUC wedi derbyn cymeradwyaeth Weinidogol

- [Adolygiad AU Ymlaen o fframweithiau gwerthuso cynlluniau mynediad a ffioedd](#)
- [Canllawiau'r Rhaglen Ymggyraedd yn Ehangach](#)
- [Cyfarwyddyd ar Drefniadau Partneriaeth ar gyfer Addysg Freiniol a Ddarperir ar Ran Sefydliadau a Reoleiddir yng Nghymru](#)
(a elwir yn y cyfarwyddyd hwn yn Gyfarwyddyd ar Drefniadau Partneriaeth).

Amserlen

14. Byddwn yn hysbysu sefydliadau a reoleiddir eisoes yn uniongyrchol ynghylch dyddiadau cyflwyno disgwylidig. Dylai pob sefydliad sy'n gwneud cais am gynllun mynediad a ffioedd am y tro cyntaf gysylltu â CCAUC cyn cyflwyno cais. Mae'r broses ar gyfer hyn wedi'i nodi ar ein gwefan, [Hysbysiad o fwriad i gyflwyno cynllun mynediad a ffioedd](#).

Atal

15. Bydd unrhyw sefydliad sydd â chynllun mynediad a ffioedd wedi'i gymeradwyo'n cael ei ddsbarthu fel corff addysg uwch perthnasol a bydd yn rhaid iddo gydymffurfio ar unwaith â deddfwriaeth y Ddyletswydd Atal, os nad yw'n gwneud hynny eisoes. **Mae'r rhai sydd â phencadlys yng Nghymru'n dod o dan awdurdod monitro CCAUC oni bai eu bod wedi'u harolygu eisoes gan Estyn.**⁴ Mae cylchlythyr [W16/39HE](#) Fframwaith Monitro CCAUC yn datgan sut mae CCAUC yn monitro dull darparwyr o weithredu'r Ddyletswydd Atal statudol. Rhaid i gyrff addysg uwch perthnasol ddilyn y fframwaith hwn i ddangos ystyriaeth briodol i'r Ddyletswydd. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â prevent@hefcw.ac.uk.

Dynodi cyrsiau eraill

16. Mae'r cyfarwyddyd hwn yn ymwneud â chefnogaeth i fyfyrwyr ar gyrsiau gradd llawn amser a TAR (SAC) yn unig. Mae'r holl sefydliadau a gyllidir gan Gymru⁵ wedi'u dynodi'n awtomatig ar gyfer cefnogaeth myfyrwyr i gyrsiau gradd rhan amser, cyrsiau ôl-radd llawn amser a rhan amser, a chysiau doethuriaeth.
17. Gall darparwyr addysg uwch sy'n methu, neu'n dewis peidio, gwneud cais am gynllun mynediad a ffioedd wneud cais am i'w cyrsiau gradd llawn amser a TAR (SAC) gael eu dynodi'n benodol ar gyfer myfyrwyr sy'n byw yng Nghymru fesul cwrs. Hefyd, gall darparwyr nad ydynt yn derbyn arian cyhoeddus ac sy'n dymuno i'w cyrsiau rhan amser neu ôl-radd gael eu dynodi ar gyfer myfyrwyr sy'n byw yng Nghymru wneud cais am iddynt gael eu dynodi'n benodol fesul cwrs. Am fwy o wybodaeth am y broses ddynodi benodol, cysylltwch â cyngorrheoleiddio@hefcw.ac.uk. Dylai'r sefydliadau drafod trefniadau dynodi

⁴ Bydd darparwyr heb bencadlys yng Nghymru'n cael eu monitro gan yr awdurdod perthnasol yn y wlad honno.

⁵ Ystyr sefydliad Cymreig yw sefydliad yn y Deyrnas Unedig sy'n cael ei gynnal neu ei gynorthwyo gan grantiau cyson o gyllid a ddarperir gan Weinidogion Cymru.

cyrsiau ar gyfer myfyrwyr sy'n byw mewn rhannau eraill o'r DU â gweinyddiaethau perthnasol y DU.

Cydraddoldeb ac amrywiaeth ac asesiad effaith CCAUC

18. Mae'n ddyletswydd arnom i asesu effaith ein polisiau a'n prosesau. Mae asesiad wedi cael ei gynnal o effaith y cyfarwyddyd hwn. Fel awdurdod cyhoeddus, mae gan CCAUC gyfrifoldebau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a [Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus \(2011\)](#) i roi ystyriaeth briodol i gydraddoldeb ac amrywiaeth wrth ddatblygu a gweithredu ei bolisiau. Hefyd, mae gan CCAUC ddyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015) (Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol) a dyletswyddau mewn perthynas â'r Gymraeg.⁶ Nid yw CCAUC yn rheoleiddio cydymffurfiaeth sefydliadau â rhwymedigaethau cyfreithiol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, ond rydym yn monitro eu perfformiad. Mae Cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru i CCAUC ar gynlluniau mynediad a ffioedd (paragraff 4.18) yn datgan y gall grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch gynnwys unigolion sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig,⁷ fel y'u diffinnir yn y Ddeddf Cydraddoldeb.
19. Gwnaethom gynnwys cwestiynau penodol yn gysylltiedig â chydraddoldeb yn ein [hymgyngoriad eang ar gyfarwyddyd cynlluniau mynediad a ffioedd 2017/18](#), y mae'r cyfarwyddyd hwn wedi'i seilio arno. Anogodd CCAUC yr ymatebion i'r hymgyngoriad i nodi unrhyw effeithiau a allai fod yn negyddol ar gydraddoldeb ac amrywiaeth, y Gymraeg a'r nodau llesiant, fel y nodir yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae CCAUC yn adolygu'r data a'r dystiolaeth sy'n ymwneud â nodweddion gwarchoddedig a'r Gymraeg yn flynyddol, yn sail ar gyfer ymarfer a gweithredu polisi. Mae CCAUC yn parhau i groesawu tystiolaeth ychwanegol fel sail i ddatblygu a gweithredu polisiau cynlluniau mynediad a ffioedd. Anfonwch unrhyw dystiolaeth a/neu gyngor ychwanegol i cydraddoldeb@hefcw.ac.uk.
20. Cyhoeddwyd ein [Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 \(CCS\)](#) ym mis Mawrth 2020, yn dilyn hymgyngoriad. Mae ein CCS yn nodi ein blaenoriaethau ar gyfer CCAUC ac addysg uwch yng Nghymru, a'r modd y byddwn yn cydweithio â darparwyr a phartneriaid eraill i'w cyflawni. Dylai sefydliadau ystyried y blaenoriaethau hyn a'r blaenoriaethau a nodir yn eu CCSau eu hunain wrth bennu eu hamcanion i gefnogi grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch. Mae CCAUC yn bwriadu adolygu ei CCS i ystyried effaith Covid-19 yn unol â chyngor gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Rydym yn cydnabod y bydd pob sefydliad a reoleiddir yn gwneud hynny hefyd.
21. O 31 Mawrth 2021, bydd yn rhaid i gyrff cyhoeddus yng Nghymru roi sylw digonol i'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, fel y nodwyd yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Er nad yw CCAUC, na darparwyr addysg uwch, yn cael eu galw'n gyrff cyhoeddus ar hyn o bryd, mae CCAUC wedi ymrwymo 'i

⁶ Cyhoeddwyd rheoliadau safonau'r Gymraeg, sy'n berthnasol i CCAUC, yn gynnar yn 2017.

⁷ Dyma'r nodweddion gwarchoddedig: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, priodas a phartneriaethau sifil, hil, crefydd a chred a diffyg cred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

weithredu'n unol ag ysbryd' y ddyletswydd fel y disgwylir gan Lywodraeth Cymru, ac rydym yn annog sefydliadau a reoleiddir yn gryf i wneud felly hefyd.

22. Mae CCAUC wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth o safon a gwasanaeth cyfartal i'r cyhoedd yn Gymraeg ac yn Saesneg, er mwyn bodloni [Safonau'r Gymraeg](#). Nodir yn ein [cynllun gweithredu](#) sut rydym yn cydymffurfio â'r safonau hyn. Ceir rhagor o wybodaeth ar ein [gwefan](#).
23. Nid CCAUC yw'r corff sy'n rheoleiddio sefydliadau o ran eu cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg. Fodd bynnag, mae CCAUC yn cefnogi datblygiad addysg uwch cyfrwng Cymraeg ac yn disgwyl i ddarparwyr addysg uwch gynyddu ceisiadau am leoedd a chofrestriadau ar gyrsiau cyfrwng Cymraeg. Mae cyfleoedd i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn rhan neilltuol a phwysig o addysg uwch yng Nghymru, ac wrth ddatblygu cynlluniau mynediad a ffioedd dylai sefydliadau ystyried y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae ein proses asesu effaith yn ystyried ein dyletswyddau yn hyn o beth.
24. Mae CCAUC wedi cyflwyno ei Strategaeth Gorfforaethol newydd i Lywodraeth Cymru ac yn disgwyl am gymeradwyaeth Weinidogol. Byddwn yn diwygio ein hamcanion llesiant fel bo'r angen yn ôl Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015). Mae prosesau'r cynllun mynediad a ffioedd yn fecanwaith allweddol i gyflawni ein Strategaeth Genedlaethol ac i dystio i'n hymrwymiad tuag at nodau Cenedlaethau'r Dyfodol.

Rhagor o wybodaeth a chyngor

25. Dylai unrhyw sefydliad sy'n dymuno trafod y broses ar gyfer gwneud cais am Gynllun Mynediad a Ffioedd, neu unrhyw agwedd arall ar ein swyddogaethau rheoleiddio, anfon ymholiadau drwy e-bost i: cyngorrheoleiddio@hefcw.ac.uk.

Ffurflen Gais Cynllun Mynediad a Ffioedd

26. Mae'n rhaid i'r sefydliad sy'n gwneud cais am gynllun mynediad a ffioedd llenwi'r ffurflen gais a geir yn **Atodiad A** a rhoi gwybodaeth atodol mewn taenlen excel a geir yn **Atodiad B**. Mae'r ffurflen gais yn cynnwys tair rhan, a phob rhan wedi'i rhannu'n adrannau gwahanol.
27. Mae'r canllawiau hyn yn mynd drwy bob adran ar y ffurflen gais gan nodi ein disgwyliadau gan y sefydliad sy'n llenwi'r ffurflen gais.
28. Mae'n rhaid i bob cais cynllun mynediad a ffioedd gynnwys enw'r sefydliad a'i rif cofrestru fel darparydd yn y DU.
29. Wrth gyflwyno cais mynediad a ffioedd mae'n rhaid i'r corff llywodraethu enwi'r unigolion cyswllt o fewn y sefydliad sy'n atebol i'r corff llywodraethu am reoli'r cais hwnnw. Ceir lle ar y ffurflen gais i nodi dau unigolyn cyswllt o fewn y sefydliad. Disgwylir i'r corff llywodraethu enwebu aelod o'i uwch dîm rheoli, fel Dirprwy Is-ganghellor, i fod yn unigolyn cyswllt arweiniol o fewn y sefydliad. Anfonir pob gohebiaeth yn gysylltiedig â'r cais at yr unigolyn cyswllt hwn. Dylid enwi unigolyn cyswllt arall o fewn y sefydliad hefyd er mwyn sicrhau bod gohebiaeth yn gysylltiedig â cheisiadau yn cael ei derbyn a'i phrosesu'n brydlon. Byddem yn disgwyl i'r unigolyn hwn fod yn aelod uwch o'r tîm cynllunio.

Rhan Un: Gwybodaeth Reoleiddiol

30. Mae'n ofynnol i'r sefydliad sy'n gwneud cais cynllun mynediad a ffioedd gyflwyno gwybodaeth i ddangos ei fod yn gymwys i wneud cais am gynllun mynediad a ffioedd.
31. Mae arnom angen tystiolaeth sy'n dangos bod y sefydliad:
 - yn sefydliad,
 - wedi'i leoli'n bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru,
 - yn darparu addysg uwch,
 - yn elusen,
 - yn ariannol hyfyw,
 - yn cael ei reoli'n dda yn ariannol, ac
 - yn darparu addysg o safon.
32. Os oes gan CCAUC wybodaeth ddigonol a diweddar, byddwn yn ei defnyddio, yn amodol ar ganiatâd y corff llywodraethu i wneud hynny. Gall y sefydliad hefyd gyflwyno gwybodaeth newydd, ychwanegol neu fwy diweddar fel sail i'n prosesau asesu. Os nad oes gan CCAUC ddigon o wybodaeth neu ddata cyfredol, mae'n ofynnol i'r sefydliad ddarparu hynny i gefnogi ei gais. Dylai'r holl ddata a gyflwynir fel tystiolaeth fod y data mwyaf cyfredol a rhaid gallu eu dilysu.

33. Mae CCAUC yn cadw'r hawl i ymweld â sefydliadau er mwyn deall yn well y cymhwysedd yn gysylltiedig â'r sefydliad a'r rheolaeth ar faterion ariannol ac ansawdd yr addysg a ddarperir gan, neu ar ran, y sefydliad os yw'r wybodaeth yn aneglur neu'n annigonol.
34. Mae'r wybodaeth a gyflwynir i CCAUC yn adran un er gwybodaeth i ni yn unig ac nid oes rhaid i sefydliad ei chyhoeddi.

Adran 1: A yw ymgeisydd y cynllun mynediad a ffioedd yn sefydliad?

35. Nid yw Deddf 2015 yn diffinio'r term 'sefydliad' yn benodol. Mae CCAUC yn ystyried bod y canlynol yn sefydliadau:
- prifysgolion a ffurfiwyd drwy Siarter Frenhinol,
 - Corfforaethau Addysg Uwch,
 - Corfforaethau Addysg Bellach a
 - chyrrff sy'n hyfforddi aelodau o'r gweithlu addysg.
36. Mae'n rhaid i ymgeisydd y cynllun mynediad a ffioedd gadarnhau ei fod yn un o'r mathau hyn o sefydliad. Os yw sefydliad yn un o'r mathau hyn o sefydliad, dylai gynnwys dolen i ddogfennau sy'n dystiolaeth o hynny neu gyflwyno'r wybodaeth honno os nad yw ar gael i'r cyhoedd.
37. Os nad yw ymgeisydd y cynllun mynediad a ffioedd ymhlith y mathau a restrir ym mharagraff 34 mae'n rhaid iddo wneud cais i Lywodraeth Cymru [i gael ei ddynodi'n sefydliad i ddibenion y Ddeddf](#) cyn cyflwyno cynllun mynediad a ffioedd.
38. Os gwrthodir dynodi ymgeisydd y cynllun mynediad a ffioedd yn sefydliad i ddibenion y Ddeddf, ni fyddwn yn gallu cymeradwyo cais cynllun mynediad a ffioedd y sefydliad.

Adran 2: A yw'r sefydliad wedi'i leoli'n bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru?

39. Byddwn yn ystyried a yw sefydliad yng Nghymru drwy ystyried yr ystod o dystiolaeth a nodir yn y canllawiau.
40. Mae'n rhaid i'r sefydliad restru ei brif gyfeiriadau a'i gyfeiriadau cyfreithiol, os ydynt yn wahanol, ac unrhyw enwau eraill y mae'r sefydliad yn gweithredu oddi tanynt.
41. Yn ogystal â'r wybodaeth hon, mae'n ofynnol i'r sefydliad restru lleoliadau'r holl weithgareddau dysgu ac addysgu a'r holl weithgareddau eraill y mae gan y sefydliad fuddiant ynddynt, gan gynnwys lleoliadau yng Nghymru, yng ngweddill y DU ac mewn gwledydd tramor. Ar gyfer pob lleoliad lle mae'r sefydliad yn cyflwyno gweithgareddau dysgu ac addysgu rhaid i'r sefydliad gynnwys nifer y myfyrwyr ar gyrsiau ym mhob lleoliad. Dylai'r sefydliad ddarparu'r wybodaeth hon yn Nhabl 'Lleoliadau' yn **Atodiad B**.⁸

⁸ Ceir cyfarwyddyd ar gwblhau Atodiad B ym mharagraffau 161 i 218.

Adran 3: A yw'r sefydliad yn darparu addysg uwch (AU)?

42. Mae'n rhaid i'r sefydliad allu dangos ei fod yn darparu addysg uwch, fel y'i rhestrir yn [Atodlen 6 o Ddeddf Diwygio Addysg 1998](#), waeth beth fo'r dull astudio.
43. Os nad yw'r sefydliad wedi cofrestru gydag Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) mae'n rhaid iddo roi disgrifiad o'r addysg uwch y mae'n ei darparu ac, ar wahân i hynny, nifer y myfyrwyr cyfwerth ag amser llawn yng Nghymru a allai fod yn dilyn y cyrsiau addysg uwch ar ddyddiad y cais, ac am dair blynedd cyn hynny. Os yw'r sefydliad wedi cofrestru gyda HESA nid oes angen iddo ddarparu'r wybodaeth hon, a dylai adael y ffurflen gais sy'n gofyn am yr wybodaeth honno'n wag. Os yw'r sefydliad wedi darparu gwybodaeth am fyfyrwyr drwy gofnod dysgu gydol oes Cymru yn y gorffennol, gallwn ddefnyddio gwybodaeth flaenorol o'r cofnod hwnnw.
44. Mae'n rhaid i'r sefydliad fod â rheolaeth dros ei gyrsiau cymwys, hy ei gyrsiau TAR (SAC) a gradd amser llawn. Wrth asesu rheolaeth, mae'r ffactorau i'w hystyried yn cynnwys a oes gan y sefydliad gyfrifoldeb dros gynnwys a darpariaeth gyffredinol y cwrs/cyrsiau cymwys, y trefniadau asesu ansawdd a'r cyfrifoldebau contractiol i'r myfyriwr. Bydd CCAUC yn ystyried sut mae'r naill barti a'r llall yn diffinio hyn, ond CCAUC yn y pen draw fydd yn penderfynu a yw'r ddarpariaeth yn cael ei darparu gan, neu ar ran, y sefydliad.
45. Tybir bod gan y sefydliad reolaeth dros y cwrs os:
- mai'r sefydliad yw'r corff dyfarnu a'i fod naill ai'n darparu'r cyrsiau cymwys neu os yw'r cyrsiau cymwys yn cael eu darparu ar ei ran drwy drefniadau is-gontractio,
 - yw'n cyflenwi'r cyrsiau cymwys drwy drefniant dilysu â phrifysgol, neu'n
 - darparu'r cyrsiau cymwys a ddyfernir naill ai gan Pearson neu Awdurdod Cymwysterau'r Alban.
46. Tybir nad oes gan y sefydliad reolaeth dros y cwrs os yw'n darparu'r cwrs hwnnw ar ran sefydliad arall, drwy drefniant is-gontractio fel cytundeb masnachfrait.
47. Ceir sefyllfaoedd lle bydd y sefydliad yn darparu addysg uwch yn uniongyrchol ac yn darparu addysg uwch ar wahân ar ran sefydliad arall. Yn y sefyllfaoedd hynny, ni ddylid ond cynnwys y cyrsiau y mae'n eu darparu'n uniongyrchol yn y cynllun mynediad a ffioedd, nid y cyrsiau y mae'n eu darparu drwy drefniadau is-gontractio (y bydd y sefydliad dyfarnu yn gyfrifol amdanynt ac a fydd wedi'u cynnwys yn rhan o'i gyfrifoldeb rheoleiddio).
48. Efallai y bydd gan y sefydliad rai cyrsiau gradd amser llawn a ddarperir ar ei ran. Mae'r cyrsiau hyn o fewn cwmpas cynllun mynediad a ffioedd y sefydliad, ac wedi'u dynodi ar gyfer cymorth i fyfyrwyr pan fydd y corff partner sy'n darparu'r cwrs yn elusen neu'n endid cyfreithiol ar wahân. Yn yr achos hwn, ni

fydd gan y partner unrhyw gyfrifoldeb dros gynnwys na darpariaeth gyffredinol y cwrs cymwys.

49. Os yw'r sefydliad sy'n gwneud cais am gynllun mynediad a ffioedd am gynnwys cyrsiau addysg uwch a ddarperir gan ei is-gorff o fewn cwmpas ei gynllun mynediad a ffioedd, bydd angen iddo gadarnhau bod cytundebau wedi'u sefydlu is-gyrff gyflenwi addysg ar ei ran. Dylai'r cytundebau hyn fod wedi'u sefydlu rhwng corff llywodraethu'r rhiant-sefydliad a'r is-gorff.
50. Os yw'r sefydliad sy'n gwneud cais am gynllun mynediad a ffioedd yn is-gorff i riant-sefydliad ac yn endid cyfreithiol ar wahân i'r rhiant-sefydliad hwnnw, bydd angen iddo gyflwyno tystiolaeth i ddangos bod ganddo reolaeth ar y cyrsiau drwy gyflwyno cytundebau â'r sefydliad dyfarnu perthnasol i CCAUC. Bydd y sefydliad yn cael ei asesu fel sefydliad, a bydd yn rhaid iddo fodloni'r holl ofynion rheoleiddio yn ei hawl ei hun.
51. Er mwyn asesu ai'r sefydliad sydd â rheolaeth dros y cwrs, bydd yn ofynnol i'r sefydliad naill ai:
 - cadarnhau bod y cyrsiau cymwys sydd o fewn cwmpas y cynllun mynediad a ffioedd yn arwain at gymhwyster a ddyfernir gan y sefydliad ei hun; neu
 - enwi'r sefydliad sy'n dyfarnu'r cymwysterau ar gyfer y cyrsiau y mae'n eu cyflenwi, ynghyd â dogfennau perthnasol gan y sefydliad dyfarnu yn dystiolaeth o hynny.
52. Mae'n rhaid i gyrsiau cymwys fod wedi'u dilysu gan gorff dyfarnu priodol:
 - prifysgol sydd ar [orchymyn cyrff cydnabyddedig Gweinidog Cymru](#),
 - Pearson, ac
 - Asiantaeth Cymwysterau'r Alban.

Adran 4: A yw'r sefydliad yn elusen?

53. Mae'n rhaid i'r sefydliad sy'n gwneud cais am gynllun mynediad a ffioedd fod yn elusen, ac mae'n rhaid cadarnhau hyn yn y cais, ynghyd â rhif cofrestru elusen y sefydliad (lle bo'n berthnasol) ac enw a chyfeiriad y corff sy'n rheoleiddio ei statws fel elusen.
54. Mae pob Prifysgol Siartredig yng Nghymru a'r holl Gorfforaethau Addysg Uwch yng Nghymru'n elusennau cofrestredig. Mae'r holl Gorfforaethau Addysg Bellach yn elusennau esempt.
55. Os nad yw'r sefydliad wedi cofrestru gyda rheoleiddiwr elusennau, rhaid iddo nodi'r rhesymau dros hyn, gan gynnwys copi o'i ddogfen lywodraethu.
56. Pan fo cyrsiau cymwys, sydd oddi mewn i gwmpas y cynllun mynediad a ffioedd, yn cael eu darparu ar ran y sefydliad, bydd yn rhaid i'r sefydliad gadarnhau bod yr holl ddarparwyr sy'n cyflenwi'r cyrsiau cymwys ar ei ran yn elusennau. Bydd hyn wedi'i nodi yn y tabl 'Lleoliadau' yn **Atodiad B**⁹.

⁹ Ceir cyfarwyddyd ar gwblhau Atodiad B ym mharagraffau 161 i 218

Adran 5: A yw'r sefydliad yn hyfyw o safbwynt ariannol?

57. Mae'n rhaid i'r sefydliad ddarparu gwybodaeth i CCAUC am ei hyfywedd ariannol, gan gynnwys tystiolaeth i ddangos ei fod yn gynaliadwy yn y tymor canolig. Dylai'r dystiolaeth fod yn ddigonol i roi hyder rhesymol i CCAUC na fydd myfyrwyr mewn perygl o beidio â gallu cwblhau eu cwrs o ganlyniad i fethiant ariannol.
58. Bydd ein hasesiad o berfformiad a chynaliadwyedd ariannol y sefydliad wedi'i seilio ar farn gyffredinol sydd hefyd yn ystyried cyd-destun sefyllfa ariannol y sefydliad a'i gynllun strategol.
59. Yn ei gais, dylai'r sefydliad gynnwys manylion llawn ei strwythur grŵp corfforaethol, gan gynnwys manylion am holl gwmnïau neu sefydliadau'r grŵp, i gynnwys is-gwmnïau, rhiant-gwmnïau/cwmnïau daliannol neu fentrau cysylltiol neu ar y cyd.
60. Fel sy'n briodol, gall yr asesiad o hyfywedd ariannol ystyried trefniadau ariannol unrhyw strwythur grŵp (gan gynnwys is-gwmnïau, rhiant-gwmnïau/cwmnïau daliannol neu fentrau cyswllt a/neu ar y cyd) os credir bod hynny'n berthnasol i hyfywedd ariannol.
61. Bydd yn rhaid darparu strategaeth ariannol sy'n adlewyrchu'r cynllun strategol cyffredinol wrth gyflwyno'r cais am gynllun mynediad a ffioedd, yn pennu meincnodau a dangosyddion perfformiad priodol, yn dangos sut y bydd adnoddau'n cael eu defnyddio, a sut y bydd gweithgareddau a seilwaith yn cael eu cyllido. Dylai hyn gynnwys sut mae'r sefydliad yn asesu ac yn adolygu ei gynaliadwyedd, gan gynnwys ei ddefnydd o asesiadau cynaliadwyedd.
62. Mae gweddill yr wybodaeth sy'n ofynnol yn ddibynnol ar berthynas CCAUC â'r sefydliad sy'n gwneud cais am gynllun mynediad a ffioedd.

Os yw'r sefydliad yn brifysgol a reoleiddir gan CCAUC ar hyn o bryd

63. Mae'n rhaid i'r sefydliad ddarparu'r rhagolygon cyfredol a nodir yn Nhabl 'Gwybodaeth Ariannol' yn Atodiad B. Bydd hyn yn ategu gwybodaeth a gyflwynwyd gan y sefydliad yn rhan o [gylchlythyr Ceisiadau am Ragolygon 2021 CCAUC](#). Dylid darparu unrhyw naratif ategol ar y ffurflen gais a dylid cyfeirio at deitlau unrhyw ddogfennau ategol yn y cais.

Os nad yw'r sefydliad yn brifysgol a reoleiddir yn gyfredol gan CCAUC

64. Mae'n rhaid i'r sefydliad ddarparu gwybodaeth sy'n dangos:
 - **Perfformiad hanesyddol** – enw da am berfformiad ariannol a ddangosir drwy adroddiadau blynyddol a datganiadau ariannol wedi'u harchwilio'n allanol ar gyfer y tair blynedd cyn y cais. Rhaid i'r cyfrifon gael eu harchwilio bob blwyddyn gan archwilydd cofrestredig. Ni ddylai hwn fod yr un cwmni a/neu unigolyn ag a baratôdd y cyfrifon, i sicrhau bod modd i CCAUC fod â hyder llawn yn yr archwiliad. Sail y cyfrifon fydd yr Arfer Cyfrifo a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y DU (UK GAAP) (neu ofynion

olynol) neu'r Safonau Cofnodion Ariannol Rhyngwladol (IFRS) os yw hynny'n briodol.

- **Rhagolygon - mae'n rhaid i'r sefydliad ddarparu rhagolygon ar gyfer y flwyddyn gyfredol amcangyfrifedig ynghyd â rhagolygon tair blynedd o leiaf, wedi'u cefnogi gan warant rhiant-gwmni os oes angen sy'n dangos bod ganddo:**
 - lif arian digonol i barhau'n solfent, hynny yw, hylifedd digonol i dalu dyledion fel maent yn dod yn ddyledus;
 - a mantolen ddigonol sy'n cynnal sefyllfa cyfanswm asedau net fel na fyddai'r sefydliad yn wynebu diffygion pe bai'r rhain yn arwain at sefyllfa o gyfanswm atebolrwydd net. Dylai rhagolygon ariannol llawn gynnwys y flwyddyn gyfredol (2019/20) a'r tair blynedd canlynol. Dylai'r dystiolaeth gynnwys sylwebaeth ar y rhagdybiaethau sy'n cael eu gwneud a sut mae unrhyw risgiau ariannol yn cael eu rheoli.

65. Os yw'r sefydliad yn goleg, gall gyflwyno'r wybodaeth am ragolygon y mae'n eu darparu i Lywodraeth Cymru.

Adran 6: A yw materion ariannol y sefydliad wedi'u rheoli'n dda?

66. Bydd angen i'r sefydliad ddarparu tystiolaeth sy'n dangos ei fod yn cael ei reoli'n dda a bod arferion rheoli cadarn wedi'u sefydlu a'r capasiti i ddatblygu yn unol â'i gynllun strategol a'r strategaeth ariannol sy'n cefnogi ei gynllun mynediad a ffioedd. Os yw'r sefydliad eisoes wedi cyflwyno'r dystiolaeth hon i CCAUC, dylech gyfeirio at hynny lle bo'n berthnasol ar y ffurflen gais, gan nodi enw'r ffeil a ddarparwyd.
67. Bydd yn rhaid i'r sefydliad ddarparu gwybodaeth sy'n dangos:
- bod ganddo brosesau rheoli ariannol sy'n cael eu llywodraethu'n dda a'u rheoli'n ddigonol ac yn effeithiol,
 - ei fod yn cynllunio ac yn rheoli gweithgareddau er mwyn parhau i fod yn hyfyw,
 - bod ganddo systemau cadarn a chynhwysfawr ar gyfer rheoli risg a rheolaeth fewnol,
 - bod ganddo drefniadau effeithiol ar gyfer rheoli a sicrhau ansawdd y data a ddefnyddiwyd er mwyn gwneud penderfyniadau'n fewnol,
 - bod ganddo wybodaeth reolaidd, ddibynadwy, amserol a digonol i fonitro perfformiad gweithredol ac ariannol,
 - ei fod yn adrodd gwybodaeth yn rheolaidd, yn gynhwysfawr ac yn gywir i uwch reolwyr priodol a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu,
 - yn rheoli ei stad mewn ffordd gynaliadwy yn unol â strategaeth stadau,
 - ei fod yn gallu bodloni'r holl ofynion casglu ac adrodd yn ôl ar ddata angenrheidiol ar gyfer CCAUC, gan gynnwys y rhai a weinyddir gan HESA a chyrrff eraill, fel sy'n ofynnol gan CCAUC. Dyma rai enghreifftiau:
 - adroddiad yr archwiliad mewnol diweddaraf o systemau a phrosesau data
 - arolwg blynyddol HESES;
 - data myfyrwyr, cyrchfan myfyrwyr, staff, stadau, cyllid a busnes a rhyngweithio cymunedol a ddarparwyd i HESA a'r
 - ffurflen sicrwydd flynyddol.

68. Wrth asesu'r galluedd rheoli data, rhoddir ystyriaeth, lle bo hynny'n berthnasol, i enw da'r sefydliad wrth gyflwyno data i CCAUC neu gyrff eraill, gan gynnwys HESA, Llywodraeth Cymru a'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr, a'i gydymffurfiaeth â'r cod ymarfer ar gyfer [casglu data addysg uwch](#) i baratoi data ar gyfer eu cyflwyno.
69. Mae'n rhaid i'r sefydliad ddarparu tystiolaeth i ddangos y gall gydymffurfio ag egwyddorion y Cod Llywodraethu Addysg Uwch¹⁰ a bod yn gyson â'r argymhellion yn yr Adolygiad o Drefniadau Llywodraethu Prifysgolion Cymru¹¹. Fel arall, gellid rhoi tystiolaeth o gadw at egwyddorion llywodraethu amgen, sydd yr un mor gadarn, fel Cod Llywodraethu Da Colegau Cymru ar gyfer Colegau yng Nghymru¹², lle bo'n berthnasol. Mae CCAUC yn cydnabod mai gwirfoddol yw'r Cod a bod y sefydliad yn cael cymhwyso arferion llywodraethu amgen er mwyn sicrhau canlyniadau tebyg. Fodd bynnag, mae CCAUC yn ystyried bod egwyddorion a chanlyniadau arfaethedig (y cyfeirir atynt fel 'yr Elfennau') y Cod yn gadarn. Os nad yw'n bosib dangos tystiolaeth o gydymffurfio â'r Cod, bydd CCAUC eisiau esboniad sy'n disgrifio trefniadau amgen sydd wedi cael eu sefydlu ac sydd yr un mor gadarn, neu sy'n dangos bod sail briodol a rhesymol ar gyfer peidio cadw at hyn.
70. Os nad yw'r sefydliad yn cydymffurfio eisoes â'r Cod Llywodraethu Addysg Uwch, dylai drafod â CCAUC, cyn gwneud cais am gynllun mynediad a ffioedd, sut y gall ddarparu tystiolaeth o drefniadau amgen sydd yr un mor gadarn.
71. Bydd angen i'r sefydliad ystyried yr holl gyfarwyddyd perthnasol ar gyfrifoldebau ymddiriedolwyr ac ymddiriedolaeth effeithiol. Mae'r [cyfarwyddyd hwn](#) ar gael ar wefan y [Comisiwn Elusennau](#).
72. Mae'n rhaid i'r sefydliad ddarparu tystiolaeth i ddangos:
- ei fod yn cydymffurfio â'r gofynion statudol sy'n berthnasol i archwilio allanol;
 - a'i fod yn eiddo i ac yn cael ei reoli a'i weithredu gan 'bersonau addas a phriodol' drwy ddarparu:
 - tystiolaeth o bwy yw'r sefydliad a'r unigolion allweddol (er enghraifft, y Corff Llywodraethu, yr Is-ganghellor, Y Pennaeth, cyfarwyddwyr, cyfranddalwyr, ymddiriedolwyr), ynghyd â'u sgiliau a'u profiad; a
 - chadarnhad bod y cyfarwyddwyr / ymddiriedolwyr (fel sy'n berthnasol) yn gymwys i weithredu fel naill ai gyfarwyddwyr neu ymddiriedolwyr ac nad ydynt wedi'u hanghymhwyso rhag gweithredu fel cyfarwyddwyr neu ymddiriedolwyr.

¹⁰ [Cod Llywodraethu Addysg Uwch \(Pwyllgor o Gadeiryddion Prifysgol\) Rhagfyr 2018](#)

¹¹ [Adolygiad o Drefniadau Llywodraethu Prifysgolion Cymru \(Gillian Camm\) Rhagfyr 2019](#)

¹² [Cod Llywodraethu Da i Golegau yng Nghymru \(Colegau Cymru\) 2016](#)

Adran 7: A yw'r addysg a ddarperir gan ac ar ran y sefydliad yn ddigonol i fodloni anghenion myfyrwyr?

73. Rydym ni'n gyfrifol am asesu neu wneud trefniadau ar gyfer asesu ansawdd yr holl addysg a ddarperir gan sefydliadau a reoleiddir ac ar ran sefydliadau a reoleiddir. Ystyrir addysg a ddarperir y tu allan i Gymru fel addysg a ddarperir yng Nghymru os yw'n cael ei darparu fel rhan o gwrs a ddarperir yn bennaf yng Nghymru. Bydd angen i'r sefydliad sy'n gwneud cais am gynllun mynediad a ffioedd roi tystiolaeth sy'n dangos bod ansawdd yr holl addysg a ddarperir ganddo (nid ansawdd ei gyrsiau addysg uwch cymwys yn unig) yn ddigonol i fodloni anghenion rhesymol y rhai sy'n derbyn yr addysg neu'n dilyn y cwrs.
74. Ar hyn o bryd, ystyrir bod anghenion rhesymol yn gysylltiedig ag addysg uwch wedi'u bodloni os yw'r sefydliad wedi sicrhau dyfarniadau boddhaol mewn adolygiad allanol o sicrwydd ansawdd sy'n bodloni'r safonau a osodwyd gan CCAUC.¹³ Bydd y dyfarniadau hyn yn fodd i sicrhau bod dulliau asesu ansawdd yn drwyadl. Ym mhob achos, tybir bod ansawdd sefydliad sy'n denu dyfarniadau is nag 'yn bodloni', neu gyfwerth â hynny, yn annigonol, neu mewn perygl o fod yn annigonol. Ystyrir bod yr anghenion rhesymol yn gysylltiedig â darpariaeth nad yw'n addysg uwch wedi'u bodloni os bydd darparwydd yn derbyn adolygiad/arolwg llwyddiannus gan y corff priodol sy'n gyfrifol am safonau ansawdd y ddarpariaeth honno (ee, [Estyn](#), [Pearson](#), ac ati). Hefyd bydd rhaid i dystiolaeth o adolygiad allanol gael ei hategu gan wybodaeth ychwanegol sy'n rhoi sicrwydd parhaus bod ansawdd yr addysg yn parhau'n ddigonol.
75. Ar gyfer ceisiadau am gynllun mynediad a ffioedd, mae'n rhaid i'r sefydliad ddarparu'r *holl* elfennau canlynol:
- Cadarnhad gan y sefydliad bod ganddo weithdrefnau asesu ansawdd mewnol yn eu lle ar gyfer ei holl ddarpariaeth addysg – boed yn ddarpariaeth gan y sefydliad ei hun neu ar ei ran. Mae hyn yn cynnwys yr holl ddarpariaeth addysg uwch (gan gynnwys cyrsiau cymwys a chysiau anghymwys fel astudio rhan-amser a phrentisiaethau),a darpariaeth addysg heblaw addysg uwch, ee ysgol, addysg bellach neu addysg broffesiynol. Mae'n cynnwys addysg a ddarperir gan y sefydliad neu ar ei ran drwy ddarparwyr eraill o dan gytundebau is-gontractiol.
 - Cadarnhad a thystiolaeth bod ei holl ddarpariaeth addysg uwch, gan gynnwys yr addysg uwch a ddarperir ar ei ran (ee darpariaeth masnachfrait), wedi cael canlyniadau boddhaol mewn adolygiad sicrwydd ansawdd allanol perthnasol. Os yw'r sefydliad am gael ei reoleiddio am y tro cyntaf, mae'n rhaid iddo ddangos ei fod wedi derbyn dau adolygiad llwyddiannus gan yr Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd Addysg Uwch (QAA) bob pedair blynedd, ac mai [Adolygiad Ansawdd Porth - Cymru](#) yw'r adolygiad diweddaraf. Os yw'r sefydliad yn cael ei reoleiddio ar hyn o bryd, mae'n rhaid iddo ddangos ei fod wedi derbyn *Adolygiad Addysg Uwch: Cymru* neu [Adolygiad Gwella Ansawdd](#) llwyddiannus, neu wedi dilyn proses adolygu allanol gyfatebol ar gyfer asesu ansawdd, fel arfer o fewn

¹³ Gweler yr wybodaeth sydd ar gael ar [dudalennau fframwaith asesu ansawdd CCAUC ar y we](#)

y chwe blynedd diwethaf. Yn y flwyddyn sy'n dilyn yn syth ar ôl adolygiad, os yw sefydliadau rheoledig presennol ar ganol gweithio drwy ganlyniad adolygiad er mwyn ymdrin â materion a oedd yn deillio o ganlyniad llai na cwbl foddhaol, disgwylir iddynt nodi'n fanwl sut y maent yn mynd i'r afael â'r canlyniad hwnnw. Byddem yn disgwyl i'r camau gweithredu hyn gael eu cwblhau o fewn 12 mis. Rydym hefyd yn disgwyl tystiolaeth o unrhyw adolygiadau neu arolygiadau eraill y mae'n ofynnol i'r sefydliad eu cynnal er mwyn darparu darpariaeth addysg uwch arall fel prentisiaethau.

- Cadarnhad a thystiolaeth bod ei holl ddarpariaeth heb fod yn addysg uwch, ac unrhyw ddarpariaeth heb fod yn addysg uwch a ddarperir ar ei ran, wedi cael ei hadolygu/harolygu'n llwyddiannus gan y corff priodol sy'n gyfrifol am safonau ansawdd y ddarpariaeth honno. Yn y flwyddyn sy'n dilyn yn syth ar ôl adolygiad, os yw sefydliadau rheoledig presennol ar ganol gweithio drwy ganlyniad adolygiad er mwyn ymdrin â materion a oedd yn deillio o ganlyniad llai na cwbl foddhaol, disgwylir iddynt nodi'n fanwl sut y maent yn mynd i'r afael, neu'n bwriadu mynd i'r afael, â'r canlyniad hwnnw. Byddem yn disgwyl i'r camau gweithredu hyn gael eu cwblhau o fewn 12 mis.
- Cadarnhad bod y corff llywodraethu wedi gallu cymeradwyo'r datganiadau sicrwydd ansawdd y gofynnir amdanynt yn flynyddol:
 - 1 Mae'r corff llywodraethu wedi derbyn adroddiad sy'n ystyried yr adolygiad sicrwydd ansawdd allanol, ac mae cynllun gweithredu wedi'i greu a'i roi ar waith fel bo'n briodol, mewn partneriaeth â'r corff o fyfyrwyr.
 - 2 Hyd eithaf ein gwybodaeth, mae'r methodolegau a ddefnyddiwyd yn sail i wella profiad academiaidd a deilliannau myfyrwyr yn gadarn a phriodol.
 - 3 a) I ddarparwyr â phwerau i ddyfarnu graddau: Mae safonau'r dyfarniadau yr ydym yn gyfrifol amdanynt wedi'u gosod a'u cynnal yn briodol.
b) I ddarparwyr heb bwerau i ddyfarnu graddau: Mae safonau'r dyfarniadau yr ydym yn gyfrifol amdanynt wedi'u cynnal yn briodol.
 - 4 Mae'r corff llywodraethu wedi ystyried adroddiad ar y drafodaeth flynyddol rhwng y sefydliad a'r undeb myfyrwyr neu gyfatebol, wedi craffu ar ganlyniadau arolwg y myfyrwyr ac wedi cadarnhau bod cynlluniau gweithredu wedi'u rhoi yn eu lle a'u gweithredu, mewn partneriaeth â'r corff o fyfyrwyr.
 - 5 Mae'r corff llywodraethu wedi derbyn copi o gytundeb y berthynas rhwng y sefydliad a'r undeb myfyrwyr neu gyfatebol, a chopi o siarter y myfyrwyr, ac mae'r ddau wedi cael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.
 - 6 Mae gan y corff llywodraethu oruchwyliaeth effeithiol dros ganlyniadau gradd a hygredd academaidd.
- Cadarnhad bod trefniadau partneriaeth priodol ar waith gyda'r holl gyrff eraill sydd naill ai'n darparu addysg ar ei ran neu (lle bo'n berthnasol) yn

darparu cymwysterau sy'n arwain at un o'i ddyfarniadau. Bydd gan y sefydliad restr o'r holl gyrff sydd naill ai'n darparu addysg ar ei ran neu (lle bo'n berthnasol) sy'n darparu cymwysterau sy'n arwain at un o'i ddyfarniadau yn y Tabl 'Lleoliadau' yn Atodiad B, sy'n cadarnhau bod cytundeb wedi'i sefydlu ar gyfer pob partneriaeth. Rydym yn disgwyl i'r holl drefniadau fod wedi cael eu llofnodi ar ôl 1 Medi 2015 (neu fod atodiad wedi'i ychwanegu atynt ar ôl 1 Medi 2015) i gadarnhau bod y trefniadau'n ddarostyngedig i Ddeddf 2015.¹⁴ Mae'n bosibl y bydd CCAUC yn gofyn am dystiolaeth o'r cytundebau partneriaeth.

¹⁴ Fel y nodwyd uchod yn yr adran sy'n berthnasol i'r meini prawf ar fod yn sefydliad yng Nghymru sy'n darparu addysg uwch, ceidw CCAUC yr hawl i ofyn am gopiâu o'r cytundebau perthnasol. Bydd CCAUC yn parhau i adolygu'r gofynion ynghylch ansawdd ac felly gallai ddiweddarau'r rhain yn y dyfodol.

Rhan Dau: Cynlluniau Mynediad a Ffioedd

76. Mae'r adran hon yn rhoi arweiniad i'r sefydliad sy'n llenwi'r ffurflen cynllun mynediad a ffioedd a geir yn **Atodiad A**.
77. Mae'r cynllun mynediad a ffioedd yn nodi ymrwymiad y sefydliad i ehangu mynediad i AU, drwy AU a thu hwnt i AU, drwy gefnogi cyfle cyfartal a hyrwyddo addysg uwch yng Nghymru.
78. Mae'r Ddeddf AU yn datgan gofynion cyffredinol cynllun mynediad a ffioedd. Dyma'r gofynion cyffredinol:
- gweithredu, neu sicrhau gweithredu, mesurau i ddenu ceisiadau gan ddarpar fyfyrwyr sy'n aelodau o grwpiau a dangynrychiolir,
 - gweithredu, neu sicrhau gweithredu, mesurau i gadw myfyrwyr sy'n aelodau o grwpiau a dangynrychiolir,
 - darparu, neu sicrhau darparu, cymorth ariannol i fyfyrwyr,
 - sicrhau bod gwybodaeth ar gael i fyfyrwyr neu ddarpar fyfyrwyr am y cymorth ariannol sydd ar gael i fyfyrwyr o unrhyw ffynhonnell, neu sicrhau bod gwybodaeth o'r fath yn dod ar gael,
 - rhoi gwybod i unrhyw ddarpar fyfyrwr, cyn i'r myfyrwr ymrwymo i ddilyn cwrs, am swm cyfunol y ffioedd y bydd y sefydliad yn eu codi am gwblhau'r cwrs, neu sicrhau bod unrhyw ddarpar fyfyrwr yn cael gwybodaeth o'r fath,
 - monitro cydymffurfiaeth â darpariaethau'r cynllun a
 - monitro cynnydd wrth gyflawni'r amcanion sydd wedi'u datgan yn y cynllun.

Ar y ffurflen gais rydym wedi nodi ymhle yn y cynllun yr ydym yn disgwyl gweld tystiolaeth o'r gofynion cyffredinol

79. Mae'n rhaid cyhoeddi cynlluniau mynediad a ffioedd a'u darparu i fyfyrwyr mewn unrhyw fformat ar gais.
80. Mae'n rhaid i enw'r sefydliad sy'n gwneud cais am gynllun mynediad a ffioedd fod wedi'i nodi'n glir ar y ffurflen gais.
81. Gall y sefydliad gymhwyso ei frand ei hun i'r templed ar y dechrau, ond ni chaiff newid y ffurflen gais mewn unrhyw ffordd wedi iddi gael ei chymeradwyo gennym ni.

Hyd y cynllun mynediad a ffioedd

82. Ystyrir bod cynllun mynediad a ffioedd 'mewn grym' o ddyddiad ei gymeradwyo ac 'yn weithredol' o'r flwyddyn academaidd y mae'r cynllun mynediad a ffioedd yn berthnasol iddi. Er enghraifft, bydd cynllun 2023/24 mewn grym o ddyddiad cymeradwyaeth CCAUC, sef Gorffennaf 2022, ac yn weithredol yn ystod blwyddyn academaidd 2023/24.

83. Mae'n rhaid i gynlluniau mynediad a ffioedd nodi'r cyfnod pan fyddant yn weithredol. Mae'n rhaid i sefydliadau sy'n cyflwyno cynllun mynediad a ffioedd am y tro cyntaf gyflwyno cynllun blwyddyn o hyd. Rydym yn gweithio'n unol â blwyddyn academaidd a chynllunio at sawl diben, gan gynnwys cynllunio mynediad a ffioedd, a'r flwyddyn honno yw 1 Awst tan 31 Gorffennaf. Drwy alinio cynlluniau mynediad a ffioedd â'n cylch cynllunio blynyddol gall sefydliadau fod yn hyblyg wrth ymateb i bolisiâu Llywodraeth Cymru a CCAUC ac anghenion myfyrwyr, a chyhoeddi lefelau ffioedd tua'r un pryd â sefydliadau addysg uwch eraill y DU.

Tudalen cynnwys

84. Disgwylir y bydd gan bob cynllun mynediad a ffioedd dudalen gynnwys fydd yn helpu darllenwyr i bori drwy'r cynllun.

Crynodeb gweithredol

85. Dylai'r crynodeb gweithredol nodi prif nodweddion y cynllun ac amlygu blaenoriaethau allweddol a'r buddsoddiad a ragwelir. Dylai crynodebau gweithredol roi trosolwg clir a chryno o'r cynllun. Rydym yn disgwyl i grynodedbau gweithredol gynnwys:
- pwrpas ac amcanion strategol y cynllun,
 - y grwpiau a nodwyd yn grwpiau wedi'u tangynrychioli mewn addysg uwch,
 - yr incwm of ffioedd sy'n cael ei ail-fuddsoddi er mwyn cyflawni'r amcanion, fel canran o'r cyfanswm incwm ffioedd ar gyfer myfyrwyr ar gyrsiau gradd amser llawn a TAR (SAC) o dan y gyfundrefn ffioedd gyfredol.
86. Dylai crynodebau gweithredol fod yn hygyrch, oherwydd gallai ystod o bartïon â diddordeb eu darllen, fel myfyrwyr. Bydd yn rhaid i grynodedbau gweithredol a'r cynlluniau esbonio unrhyw fyfoddau a ddefnyddir, a'r arfer gorau fyddai osgoi byfoddau os nad oes gwir angen amdanynt.
87. Ni ddylai'r crynodeb gweithredol gynnwys mwy na **1,000 o eiriau**.

Adran 1 - Lefelau ffioedd

Adran 1.1 - Lefelau ffioedd neu'r dull o gyfrifo lefel y ffi ym mhob lleoliad

88. Mae'n rhaid i gynlluniau mynediad a ffioedd naill ai:
- nodi'r holl lefelau ffi a godir gan y sefydliad neu
 - ddarparu dull o bennu lefelau ffi.

Mae canllawiau ar gyfer y ddau ddull hwn o gyflwyno ffioedd wedi'u nodi isod.

Nodi lefelau ffi union

89. Os bydd y sefydliad yn nodi lefelau ffi ar gyfer cyrsiau gradd amser llawn a TAR (SAC) mewn cynllun, dylent fod wedi'u nodi'n glir yn y tabl a ddarparwyd ar gyfer pob blwyddyn y mae'r cynllun yn berthnasol iddi. Ar gyfer pob lefel ffi, dylai'r sefydliad restru pob lleoliad ar wahân lle codir y ffi honno, a'r cymhwyster y mae'r myfyrwr y codir y ffi honno arno yn 2023/24 yn astudio tuag ato. Dyma'r cymwysterau y bydd yn rhaid eu rhestru:

- gradd gyntaf,
 - gradd meistr integredig,
 - TAR yn arwain at SAC,
 - TAR heb fod yn arwain at SAC,
 - Gradd Sylfaen,
 - HND,
 - HNC,
 - diploma addysg uwch, neu
 - tystysgrif addysg uwch.
90. Os nad oes lefel ffi wedi'i chytuno ar gyfer math neilltuol o gymhwyster mewn lleoliad, ni fydd y sefydliad yn cael codi'r lefel honno o ffi. Er enghraifft, os bydd cynllun cymeradwy yn cynnwys lefelau ffi o £7,500 ar gyfer HNCs a HNDs mewn lleoliad partner arall sy'n elusen sy'n darparu cwrs cymwys ar ei ran, ni fydd y sefydliad yn cael codi ffi am unrhyw gymhwyster arall, fel gradd sylfaen, yn y lleoliad hwnnw, onid yw'n newid ei gynllun i ddechrau, drwy broses amrywio CCAUC.
91. Mae'n rhaid i'r sefydliad ystyried y canlynol fel lleoliadau ar wahân:
- ei gampysau ei hun; a
 - champysau'r elusennau sy'n darparu cyrsiau israddedig amser llawn ar ran y sefydliad.
92. Wrth restru lefelau ffi, ni chaiff y sefydliad godi mwy na'r uchafsymiau a bennwyd ar gyfer ffioedd yn y rheoliadau. Dyma'r uchafsymiau hynny ar hyn o bryd:
- £4,500 ar gyfer blynyddoedd academaidd olaf cyrsiau lle mae disgwyl i'r flwyddyn academaidd honno gael ei chwblhau fel rheol ar ôl llai na 15 wythnos o bresenoldeb, a chwrs o hyfforddiant cychwynol i athrawon sy'n cynnwys blwyddyn academaidd lle mae unrhyw gyfnodau o astudio llawn amser, gyda'i gilydd, yn llai na 10 wythnos,
 - £1,800 ar gyfer cyrsiau rhyngosod,
 - £1,350 ar gyfer lleoliadau astudio a gwaith tramor, a
 - £9,000 ar gyfer pob cwrs arall.
93. Pan fydd y sefydliad yn ymrwmo i bennu lefelau ffi mewn cynlluniau, bydd yn rhaid i'r sefydliad ystyried effaith bosibl unrhyw newidiadau i'r ffi uchafswm, ar ôl cymeradwyo'r cynllun mynediad a ffioedd. Os ceir unrhyw newidiadau i uchafsymiau'r ffioedd bydd angen newid y cynllun mynediad a ffioedd. Wrth ystyried amrywiadau i gynlluniau mynediad a ffioedd, bydd CCAUC yn rhoi ystyriaeth i'r egwyddor sylfaenol bod myfyrwyr yn gwybod, cyn ymrwmo i gwrs, beth fydd swm cyfunol y ffioedd a godir gan y sefydliad am y cwrs ar ei hyd.
94. Wrth lenwi'r ffurflen gais, caiff y sefydliad ddileu'r bocs a ddarparwyd ar gyfer penderfynu ynghylch lefelau ffi os yw'n nodi lefelau ffi union.

Pennu lefelau ffi

95. Pan fydd sefydliad yn penderfynu ynghylch lefel ffi, bydd yn rhaid i'r sefydliad roi esboniad clir o'r dull o gyfrifo'r ffi. Gall sefydliadau gyfeirio at a chreu

cysylltiad â'r ffi uchafswm, fel y rhagnodwyd yn rheoliadau Deddf 2015, er enghraifft, a nodi pryd y bydd y lefelau ffi gwirioneddol yn cael eu gosod ac ymhle y bydd yr wybodaeth hon ar gael ar eu gwefan, yn ogystal â chadarnhau na fydd y ffi'n uwch na'r uchafswm a ganiateir. Bydd yn rhaid i'r sefydliad sicrhau, wrth osod lefel ffi, ei fod yn gwneud hynny mewn modd sy'n gyson â'r modd y pennwyd lefel y ffi mewn cynllun mynediad a ffioedd cymeradwy.

96. Os yw'r sefydliad yn penderfynu ar ei lefelau ffi yn hytrach na manylu arnynt yn union, gall ddileu'r tabl yn adran 1.1 ar ffurflen gais y Cynllun Mynediad a Ffioedd (Rhan Dau).
97. Os bydd y sefydliad yn penderfynu ar ddull o gyfrifo ffi, bydd angen iddo ddarparu mwy o wybodaeth ynghylch sut y bydd yn gwneud hynny yn rhan 3 o'r cais. Ni fydd yr wybodaeth hon ond yn cael ei defnyddio gan CCAUC i ddeall buddsoddiadau a gwella cyfle cyfartal a hybu addysg uwch. Ceir rhagor o wybodaeth isod yn yr adran ar fuddsoddi incwm ffioedd.

Adran 1.2 - Cyfanswm Lefelau Ffi

98. Mae'n ofyniad cyffredinol yn y Ddeddf Addysg Uwch fod yn rhaid i bob sefydliad a reoleiddir naill ai:
 - ddarparu gwybodaeth glir i ddarpar fyfyrwyr a myfyrwyr cyffredinol am gyfanswm eu ffioedd ar gyfer cwblhau'r cwrs, a'r sail ar gyfer unrhyw gynnydd posib mewn ffioedd ar gyfer eu cwrs ar ei hyd, neu
 - gadarnhau na cheir unrhyw gynnydd mewn ffioedd yn ystod y cwrs.
99. Yn yr adran hon o'r ffurflen gais cynllun mynediad a ffioedd, bydd yn rhaid nodi hefyd sut y bydd y sefydliad yn rhannu'r wybodaeth am ffioedd â'i fyfyrwyr a chynnwys dolen i'r wybodaeth honno ar ei wefan.
100. Bydd angen i'r adran hon drafod yr holl lefelau ffi a godir, nid yn unig y rhai a godir ar y gyfradd ffi uchafswm.
101. Mae'n arfer da i sefydliadau ymrwymo'n gyhoeddus i gadw at [ganllawiau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ar gyfer addysg uwch](#).
102. Wrth gymeradwyo'r cais cynllun mynediad a ffioedd i'w gyflwyno i CCAUC, mae corff llywodraethu'r sefydliad yn cadarnhau bod ei brosesau ar gyfer penderfynu ynghylch neu fanylu ar lefelau ffi yn cydymffurfio â'r canllawiau hyn.

Adran 2 - Partneriaeth â Myfyrwyr

103. Dylai llais y myfyriwr fod yn amlwg drwy'r holl gynllun. Dylai'r sefydliad egluro ar y ffurflen gais sut mae'n cynnwys myfyrwyr fel partneriaid wrth wneud penderfyniadau a chynllunio'n strategol. Bydd hyn yn dangos ymrwymiad y sefydliad i fod yn gyson â'i Siarter Myfyrwyr, i greu partneriaeth â myfyrwyr, ac i ddarparu gwybodaeth i ddarpar fyfyrwyr yn unol â chanllawiau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd.

104. Bydd yn rhaid i'r sefydliad esbonio'n glir sut mae'r sefydliad wedi nodi blaenoriaethau ei boblogaethau amrywiol o fyfyrwyr (gan gynnwys y rhai sy'n astudio cyrsiau a ddarperir gan elusen arall ar ei ran) ac esbonio sut y defnyddiwyd barn y myfyrwyr hyn yn sail ar gyfer amcanion y sefydliad, y gweithgareddau i'w cyflawni a'r gwasanaethau i'w darparu drwy'r cynllun, a'r grwpiau tangynrychioledig y mae'n eu cefnogi.
105. Rydym am ddeall sut mae'r sefydliad yn rhoi adborth i'w fyfyrwyr ynghylch sut y rhoddodd ystyriaeth i'w blaenoriaethau. Byddai'n fuddiol cynnwys enghreifftiau o wasanaethau a gweithgareddau a nodwyd yn y cynllun a gyflawnir ar y cyd â'r myfyrwyr.
106. Bydd esbonio sut y cafodd y cynllun ei seilio ar arolygon myfyrwyr cyfredol ac/neu ddarpar fyfyrwyr ehangu mynediad, a myfyrwyr sy'n astudio yn sgil ymglymiad Partneriaethau Ymgynraedd yn Ehangach, yn cryfhau'r cynllun ac yn dangos sut y cafodd lleisiau myfyrwyr tangynrychioledig eu cynnwys wrth gynllunio.

Adran 3 - Nodi grwpiau tangynrychioledig

107. Mae'n rhaid i'r sefydliad nodi'n glir y grwpiau tangynrychioledig mewn addysg uwch y bydd yn eu cefnogi drwy fuddsoddiad y cynllun mynediad a ffioedd er mwyn gwella cyfle cyfartal yng Nghymru. **ond** grwpiau a nodir fel grwpiau tangynrychioledig mewn AU y dylid eu cefnogi drwy fuddsoddiad cyfle cyfartal.
108. Mae CCAUC yn ystyried bod y grwpiau canlynol wedi'u tangynrychioli mewn addysg uwch. Byddwn yn nodi rhai o'r rhain yn ein mesurau cenedlaethol, yn y Rhaglen Ymgynraedd yn Ehangach a'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Disgwylir i'r sefydliad gefnogi'r holl grwpiau tangynrychioledig a restrir ym mesurau cenedlaethol CCAUC. Dyma'r grwpiau hynny:
- Myfyrwyr o bob oed o'r ddau gwintel isaf ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014.
 - Myfyrwyr o bob oed o gwintel isaf Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014.
 - Pobl o bob oed o ardaloedd yn y DU lle ceir cyfranogiad isel mewn AU
 - Myfyrwyr o bob oed a fyddai'n elwa ar astudio Addysg Uwch yn rhan-amser.
 - Myfyrwyr o bob oed sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg
109. Wrth gefnogi'r grwpiau hyn sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, rydym yn disgwyl i Gynlluniau Mynediad a Ffioedd roi esboniad clir o'r ystod o foddau a lefelau astudio a gynigir gan gynnwys gweithio amser llawn, rhan-amser, hyblyg ac ati.
110. Mae'n ofynnol i'r sefydliad ddefnyddio'r cynllun mynediad a ffioedd i gyllido ei gyfraniad fel sefydliad tuag at y Rhaglen Ymgynraedd yn Ehangach ar yr un gyfradd â'r blynyddoedd cynt. Dyma'r grwpiau â blaenoriaeth mewn sefydliadau o dan y Rhaglen Ymgynraedd yn Ehangach:
- dylai grwpiau â blaenoriaeth yn nau gwintel isaf (40% o'r boblogaeth) Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) barhau i gynnwys y canlynol:

- pobl ifanc hyd at 16 oed; ac
- oedolion dros 21 oed heb gymwysterau lefel 4.
- dysgwyr â phrofiad o ofal a gofalwyr ym mhob grŵp oedran yn eu rhanbarth waeth a ydynt yn MALIC 40 ai peidio.

Yn ogystal â hynny, dylai grwpiau blaenoriaeth newydd YE, sy'n **byw yn nau gwintel isaf MALIC, yn rhanbarth eu Partneriaeth** gynnwys:

- pobl ifanc ôl-16 mewn addysg hyd at lefel 4, yn ogystal ag oedolion heb gymwysterau lefel 4;
- pobl ag anabledau;
- pobl o gefndiroedd lleiafrifol ethnig; a
- dysgu cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys cefnogi dysgu ail iaith a diwylliannau Cymru

Dim ond y grwpiau Ymggyraedd yn Ehangach hyn a ddylai gael eu cefnogi drwy gyfraniad y sefydliad i'r Rhaglen Ymggyraedd yn Ehangach, ac fe'u rhestrir ar wahân yn yr adran hon. Rydym yn disgwyl i sefydliadau nodi'n glir pa grwpiau sefydliadol Ymggyraedd yn Ehangach a gefnogir ar wahân i unrhyw gefnogaeth ehangach a roddir drwy'r cynllun mynediad a ffioedd i grwpiau tebyg y tu allan i ranbarth eu Partneriaeth.

111. Gall y sefydliad hefyd flaenoriaethu buddsoddiad y cynllun mynediad a ffioedd i gefnogi grwpiau wedi'u tangynrychioli a restrir isod. Wrth gynnwys unrhyw un o'r grwpiau hyn mae'n rhaid cyflwyno tystiolaeth i ddangos eu bod wedi'u tangynrychioli yn y sefydliad, neu mewn AU yng Nghymru neu'r DU. Nid ydym yn disgwyl i'r sefydliad gefnogi'r holl grwpiau tangynrychioledig hyn drwy fuddsoddiad ei gynllun mynediad a ffioedd.
- Myfyrwyr â nodweddion gwarchoddedig.
 - Dynion ifanc o ardaloedd MALIC ac ardaloedd cyfranogiad isel (POLAR 4).
 - Pobl sy'n byw ar aelwydydd heb waith
 - Pobl sy'n profi 'tlodi mewn gwaith'
 - Ffoaduriaid a cheiswyr lloches
 - Dysgwyr a oedd yn derbyn Lwfans Cynhaliaeth Addysg (EMA).
 - Dysgwyr a oedd yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim
 - Ymgeiswyr a myfyrwyr sydd yn gyntaf o blith eu teulu i fynd i addysg uwch
 - Gweithwyr a chyn-weithwyr o'r lluoedd arfog a'u teuluoedd.
 - Cyn-droseddwyr
112. Gall sefydliad gynnwys grwpiau eraill a nodwyd ganddo fel grwpiau wedi'u tangynrychioli mewn addysg uwch. Os yw'n gwneud hynny dylai eu rhestru ar wahân yn yr adran hon.
113. Dylai'r sefydliad hefyd ystyried materion sy'n ymwneud â chydaddoldeb hiliol mewn addysg uwch, gan adeiladu ar raglen wella AU Ymlaen: Hil: mynediad a llwyddiant mewn Addysg Uwch. Rydym hefyd yn disgwyl i sefydliadau ymateb i gylch gwaith Llywodraeth Cymru, sef "ennill Nod Siarter i ddangos eu hymrwymiad i gael gwared â hiliaeth ac anghydaddoldeb hiliol ar bob lefel o fewn y sector".

Adran 4 - Amcanion, gweithgareddau tanategol, grwpiau tangynrychioledig a thargedau, fel y bônt yn berthnasol er mwyn cefnogi cyfle cyfartal a hyrwyddo AU

114. Mae'n rhaid i'r sefydliad nodi ei amcanion yn y cynllun mynediad a ffioedd er mwyn gwella cyfle cyfartal a hybu addysg uwch. Mae'n rhaid i'r sefydliad nodi'r rhain ar wahân ar gyfer cyfle cyfartal (yn adran 4.1 o'r ffurflen) ac ar gyfer hybu addysg uwch (yn adran 4.2). Yn erbyn yr pob amcan, mae'n rhaid i'r sefydliad:
- osod targedau a ddefnyddir ganddo i fesur cynnydd tuag at gyflawni ei amcanion,
 - y buddsoddiad er mwyn cyflawni ei amcanion, a
 - rhestru'r grwpiau tangynrychioledig y bydd y sefydliad yn eu cefnogi drwy gyflawni pob amcan ar gyfer cyfle cyfartal.

Amcanion y sefydliad

115. Wrth osod amcanion, mae'n rhaid i'r sefydliad ddangos yn glir nad yw'r amcanion ar gyfer gwella cyfle cyfartal ond yn cefnogi myfyrwyr ac ymgeiswyr o'r grwpiau tangynrychioledig a nodwyd ganddo. Dim ond amcanion i hybu addysg uwch a all gefnogi'r holl fyfyrwyr.
116. Mae'n rhaid i'r sefydliad ystyried y gofynion cyffredinol yn gysylltiedig â chynlluniau mynediad a ffioedd wrth osod amcanion i wella cyfle cyfartal. Dylai amcanion drafod sut y bydd sefydliadau:
- denu ceisiadau gan fyfyrwyr sy'n aelodau o grwpiau a dangynrychiolir, ac
 - yn cadw myfyrwyr sy'n aelodau o grwpiau wedi'u tangynrychioli
117. Rydym yn annog y sefydliad yn gryf i gynnwys amcanion sy'n gysylltiedig â datblygu a chynyddu cyfran y myfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd yr amcanion hyn yn cydnabod mai'r diffiniad a'r nod wrth ehangu mynediad yng Nghymru yw "ehangu mynediad i addysg uwch, a thu hwnt"¹⁵ ac ystyried uchelgeisiau Llywodraeth Cymru o ran y Gymraeg.

Targedau

118. Er mwyn mesur cynnydd tuag at gyflawni amcanion ac uchelgeisiau'r sefydliad o ran gwella, dylai cynllun mynediad a ffioedd gynnwys targedau cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol, synhwyrol (CAMPUS). Mae'n rhaid i bob amcan gynnwys o leiaf un targed CAMPUS a phriodol.
119. Cyhoeddodd CCAUC ei [fesurau cenedlaethol ar gyfer perfformiad addysg uwch](#) ym mis Tachwedd 2018. Rydym yn disgwyl i'r sefydliad osod o leiaf un

¹⁵ Fel y nodir yng nghyhoeddiad drafft CCAUC Dull Strategol o Ehangu Mynediad i Addysg Uwch a'r Rhaglen Weithredu Ehangu Mynediad sydd i'w cyhoeddi [ar wefan CCAUC](#).

targed fesul amcan sy'n gyson â'r mesurau cenedlaethol, gan ddangos sut y mae'n cyflawni er budd Cymru.¹⁶

120. Rydym yn disgwyl i'r sefydliad gynnwys targedau tymor hwy (tair i bum mlynedd ar ôl y flwyddyn academiaidd y mae'r cynllun yn berthnasol iddi) a tharged carreg filltir ar gyfer y flwyddyn y mae'r cynllun mynediad a ffioedd yn berthnasol iddi. Mae'n rhaid cael disgrifiad targed CAMPUS ar gyfer pob targed, sy'n dangos uchelgais y sefydliad. Mae'n rhaid cynnwys cynnydd neu ostyngiad mewn niferoedd ac/neu ganran fel bo'n briodol ar gyfer pob targed. Rhaid cynnwys y nifer/ganran gyfatebol fel gwybodaeth gyd-destunol. Byddwn yn gallu gweld yn glir ai'r nifer neu'r ganran yw'r targed/garreg filltir o'r modd y mae'r sefydliad wedi geirio disgrifiad y targed ac wedi darparu'r wybodaeth ar y templed.
121. Dylai'r targed, y disgrifiad o'r targed a'r wybodaeth gyd-destunol o o'r targedau hirdymor a'r targedau cerrig milltir gael eu cynnwys yn Nhabl 'Targedau' **Atodiad B**. Dylai'r targed carreg filltir a'r disgrifiad o'r targed hefyd gael eu cynnwys yn y tablau naill ai yn adrannau 4.1 neu 4.2 o'r ffurflen gais, yn dibynnu a yw'r targed yn gysylltiedig ag amcan i wella cyfle cyfartal neu hybu addysg uwch.
122. Mae'n rhaid i'r sefydliad osod targedau sy'n seiliedig ar y data mwyaf diweddar sydd ar gael. Mae'n rhaid i dargedau carreg milltir fod yn gyflawnadwy o fewn cyfnod y cynllun. Mae'n rhaid i'r sefydliad allu adrodd wrth CCAUC ar gyflawniad targedau erbyn mis Rhagfyr yn dilyn y flwyddyn academiaidd y mae'r cynllun mynediad a ffioedd yn berthnasol iddi. Er enghraifft, ni ddylai cynllun mynediad a ffioedd 2023/24 ond cynnwys targedau lle gellir adrodd y data wrthym ym mis Rhagfyr 2024. Bydd y dyddiad adrodd hwn yn effeithio ar y targedau a osodir.
123. Os yw hynny'n briodol, gall cynlluniau gynnwys targedau cydweithredol. Gall targedau cydweithredol gynyddu'r ymgysylltu â sefydliadau posib, sicrhau arbedion maint, neu osgoi ail-wneud gwaith heb fod angen. Mae CCAUC yn annog unioni buddsoddiad a chynlluniau sy'n seiliedig ar dargedau cydweithredol, gan gynnwys gyda'r Rhaglen Ymgynghraedd yn Ehangach. Lle bo darpariaeth yn cael ei chynnal yn gydweithredol, rydym yn disgwyl tryloywder o ran adrodd a buddsoddi ac osgoi ailgyllido.
124. Rydym yn disgwyl i'r sefydliad osod targedau sy'n dangos ei fwriad i wella perfformiad neu gynnal perfformiad, lle bo'r perfformiad hwnnw eisoes yn gryf. Byddwn yn cael gwybod am berfformiad y sefydliad drwy'r dystiolaeth a'r data sydd ar gael i ni, a thrwy fonitro cynlluniau mynediad a ffioedd blaenorol.
125. Wrth osod targedau cyfrwng Cymraeg, mae CCAUC yn disgwyl i'r sefydliad gytuno ar dargedau â'r [Coleg Cymraeg Cenedlaethol](#). Byddwn yn cysylltu â'r Coleg i asesu pa mor briodol yw'r targedau.

¹⁶ Mae CCAUC yn ystyried y canlynol fel Mesurau Cenedlaethol perthnasol: Ehangu Mynediad, Cyfranogiad, Cadw, Rhan Amser, Amrywiaeth y boblogaeth o fyfyrwyr, Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr, Cyfrwng Cymraeg, Symudedd Myfyrwyr, Cyflogaeth a Chyflogaeth Graddedigion.

126. Dylai sefydliadau osod targedau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, er enghraifft, targedau i gynyddu a chadw grŵp penodol sydd wedi'i dangynrychioli mewn addysg uwch yn hytrach na thargedau cysylltiedig ag allbwn, fel cyflawni nifer o weithgareddau, digwyddiadau a chynadleddau. Nid yw datblygu strategaethau sefydliadol a meysydd busnes craidd eraill yn dargedau addas.
127. Mae'n rhaid i dargedau'r sefydliad ddeillio o ffynonellau archwiliadwy. Mae'n rhaid cynnal trywydd clir ar gyfer archwilio data, er mwyn cadarnhau'r dull o gyfrifo'r targedau a chynnydd yn erbyn targedau ar gyfer gwaith monitro dilynol.

Grwpiau wedi'u tangynrychioli

128. Mae'n rhaid i'r tabl yn adran 4.1 nodi'r grwpiau hynny a dangynrychiolir a fydd yn cael eu cefnogi drwy gyflawni pob un o'r amcanion a nodwyd. Nid oes angen hyn ar gyfer y tabl yn adran 4.2 gan fod a wnelo'r amcanion hynny â hybu addysg uwch sy'n cefnogi'r holl fyfyrwyr.
129. Pan fo grŵp sydd wedi'i dangynrychioli wedi'i gynnwys mewn targed sydd wedi'i restru yn y tabl yn 4.1, mae'n rhaid i'r sefydliad gynnwys yr un grŵp hwnnw sydd wedi'i dangynrychioli, yng ngholofn y tabl â'r teitl 'grŵp wedi'i dangynrychioli'. Mae'n rhaid i'r sefydliad hefyd gynnwys y grwpiau eraill tangynrychioledig sy'n cael eu cefnogi nad ydynt wedi'u cynnwys yn y disgrifiad targed yn yr un golofn.
130. Os ceir buddsoddiad sefydliadol Ymgynraedd yn Ehangach yn gysylltiedig ag amcan a restrir yn nhabl 4.1 o'r ffurflen gais, dylid nodi'r grwpiau sefydliadol Ymgynraedd yn Ehangach â blaenoriaeth yng ngholofn grwpiau tangynrychioledig y tabl, ar wahân i'r grwpiau tangynrychioledig eraill a restrir.
131. Os yw'r targed yn darged cydweithredol â'r Bartneriaeth Ymgynraedd yn Ehangach, mae'n rhaid nodi hynny'n glir yn y targed ac enwi'r Bartneriaeth Ymgynraedd yn Ehangach.

Buddsoddi incwm ffioedd

132. Mae'n rhaid i'r sefydliad fuddsoddi cyfran resymol o'r incwm ffioedd o gyrsiau gradd amser llawn a TAR (SAC) er mwyn cyflawni ei amcanion yn y cynllun mynediad a ffioedd. Mae'n rhaid i'r sefydliad nodi cyfran yr incwm ffioedd sy'n cael ei fuddsoddi i gyflawni pob un o'i amcanion i wella cyfle cyfartal ac i hybu addysg uwch yn adrannau 4.1 a 4.2 o'r ffurflen gais. Dylid nodi cyfanswm yr incwm ffioedd sy'n cael ei fuddsoddi mewn cyfle cyfartal a hybu addysg uwch yn y tabl 'Buddsoddi Ffioedd' yn **Atodiad B**.
133. **Os yw'r sefydliad yn cael ei reoleiddio ar hyn o bryd, mae'n ofynnol iddo fuddsoddi o leiaf yr un gyfran o gyfanswm incwm ffioedd cyrsiau gradd amser llawn a TAR (SAC) ag y mae wedi'i wneud yn flaenorol yn y meysydd canlynol:**
- bod cyfran yr arian a fuddsoddir i wella cyfle cyfartal,
 - y rhaglen Ymgynraedd yn Ehangach, a

- **chymorth i fyfyrwyr yn cael ei chadw ar yr un gyfran â'r blynyddoedd cynt.**

134. Os na fydd y sefydliad wedi cyflawni ymrwymïadau a wnaeth mewn cynlluniau mynediad a ffioedd blaenorol yn llawn, os nad yw'n perfformio ar y lefel a ddisgwylir neu'n ddigon uchelgeisiol o ran ei amcanion, caiff CCAUC bennu disgwyliad am gyfraddau buddsoddi uwch yn y blynyddoedd sy'n dilyn, o fewn ystod o 15% i 20% o gyfanswm yr incwm ffioedd. Hysbysir y sefydliad ar wahân ynghylch hyn.
135. Os nad yw'r sefydliad wedi cael ei reoleiddio'n flaenorol, disgwylir iddo fuddsoddi rhwng 14% ac 17% o'i gyfanswm incwm ffioedd ar gyfer cyrsiau gradd amser llawn. Bydd yn rhaid cytuno â ni ar y buddsoddiad hwn. Mae buddsoddiad o fewn yr ystod hon wedi'i sefydlu â'r holl sefydliadau sy'n cael eu rheoleiddio ar hyn o bryd.
136. Dylid cyflwyno'r buddsoddiad yn erbyn pob amcan yn y cynllun mynediad a ffioedd.
137. Mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl i CCAUC fod yn gadarn o ran disgwyl mwy gan sefydliadau a reoleiddir y mae eu cofnodion yn awgrymu cynnydd annigonol tuag at wella cyfleoedd cyfartal.

Gweithgareddau a gwasanaethau i gefnogi cyfleoedd cyfartal a hybu addysg uwch

138. Mae'n rhaid i'r sefydliad restru'r gweithgareddau y bydd yn eu cyflawni a'r gwasanaethau y bydd yn eu darparu yn 2023/24 er mwyn cyflawni pob un o'i amcanion i wella cyfle cyfartal (yn adran 4.1.1 o'r ffurflen gais) ac i hybu addysg uwch (yn adran 4.2.1). Wrth asesu'r gweithgareddau sy'n cael eu cyflawni a'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu bydd angen inni ddeall yn glir sut y bydd y gweithgareddau a'r gwasanaethau'n cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni'r amcanion.
139. **Os bydd gweithgaredd neu wasanaeth yn cael ei ddarparu i gefnogi amcan i wella cyfle cyfartal, ni chaiff y gweithgareddau a'r gwasanaethau na'r buddsoddiad cysylltiedig ynddynt ond ymwneud â'r grwpiau tangynrychioledig y mae'r sefydliad wedi'u dynodi. Os darperir gweithgareddau a gwasanaethau i bob myfyriwr, bydd yn rhaid i gynlluniau roi tystiolaeth glir i CCAUC ynghylch sut y caiff myfyrwyr sydd wedi'u tangynrychioli yn cael cefnogaeth a budd neilltuol drwy'r gweithgaredd hwn. Ni ddylai buddsoddiad Cyfle Cyfartal ond bod yn berthnasol i gyfran y gweithgareddau a'r gwasanaethau y mae grwpiau wedi'u tangynrychioli yn debygol o fanteisio arnynt. Os na fydd hynny'n wir, dylid cynnwys gweithgareddau perthnasol yn yr adran hybu addysg uwch (adran 4.2.1 o'r ffurflen gais).**
140. Mae'r adran hybu addysg uwch yn galluogi'r sefydliad i restru gweithgareddau a gwasanaethau sy'n berthnasol i bob myfyriwr. Gallai'r gweithgareddau a'r gwasanaethau hynny gynnwys rhai sy'n gwella profiadau a chanlyniadau cyflogadwyedd yr holl fyfyrwyr, a rhai sy'n dangos sut mae'r sefydliad yn

ymgysylltu ag ysgolion cyfan a cholegau, cyflogwyr a phartneriaid eraill a'r gymuned leol.

141. Ni cheir cynnwys gweithgareddau na gwasanaethau sydd yn rhan o waith creiddiol sefydliad sy'n darparu addysg uwch. Gallai'r rhain gynnwys y gweithgareddau a'r gwasanaethau canlynol ymhlith eraill:
 - ysgrifennu strategaeth,
 - talu uwch reolwyr craidd,
 - talu'r cyflog byw,
 - tanysgrifiadau cyllido,
 - cynnal prosesau monitro ac adrodd hanfodol, a
 - chyllido swyddi marchnata a recriwtio cyffredinol.
142. Rydym yn cydnabod y gallai rhai gweithgareddau a gwasanaethau gyfrannu at gyflawni amryw o amcanion. Lle bo hyn yn wir, byddwn am ddeall sut y bydd y gweithgarwch neu'r gwasanaeth hwnnw'n cyfrannu at y gwahanol amcanion. Bydd angen i'r sefydliad fod yn glir, i'w ddibenion archwilio ei hun, sut y mae'r buddsoddiad wedi'i ddsrannu rhwng y gwahanol amcanion sy'n cael eu cyflawni.
143. Ceir gofyniad cyffredinol bod yn rhaid i bob cynllun mynediad a ffioedd roi cymorth ariannol a gwybodaeth am y cymorth ariannol sydd ar gael i fyfyrwyr. Rydym yn disgwyl i'r ymrwymadau hyn gael eu nodi yn yr adran hon o'r cynllun, gan gynnwys y mathau o gymorth ariannol sydd ar gael i grwpiau tangynrychioledig (ac a gefnogir drwy fuddsoddiad cyfle cyfartal) a'r cymorth i'r holl fyfyrwyr a gefnogir gan fuddsoddiad i hyrwyddo AU. Rydym yn disgwyl i ymrwymadau ariannol a wneir i fyfyrwyr mewn cynllun yn cael eu hanrhydeddu.
144. Rydym yn disgwyl i'r holl weithgareddau a'r gwasanaethau y manylir arnynt mewn cynllun mynediad a ffioedd gael eu monitro'n rheolaidd a'u gwerthuso o bryd i'w gilydd i sicrhau bod y sefydliad yn hyderus bod darpariaeth ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed, a bod gweithgareddau a gwasanaethau'n bodloni anghenion myfyrwyr a darpar fyfyrwyr.
145. Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn unrhyw weithgareddau a gwasanaethau newydd ac arloesol y bydd y sefydliad yn eu cyflwyno yn 2023/24 i gyflawni amcanion ei gynllun mynediad a ffioedd.
146. Os defnyddir teitlau neu fyfoddau ar gyfer gweithgareddau a gwasanaethau, rhowch esboniad llawn ohonynt neu eirfa.
147. Dylai'r sefydliad nodi'n glir pa weithgareddau a buddsoddiadau y mae'n eu cyfrannu tuag at gyflawni ei ymrwymadau Ymgyrraedd yn Ehangach i grwpiau blaenoriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach.
148. Dylai gweithgareddau a gwasanaethau a ddarperir mewn sefydliadau eraill, sy'n elusennau sy'n darparu addysg ar ran y sefydliad, gael eu hadlewyrchu yn yr adran hon a'u nodi felly.

Adran 5 - Monitro cydymffurfio â gofynion cyffredinol cynllun mynediad a ffioedd 2023/24

149. Mae'n rhaid i'r cynllun mynediad a ffioedd fynd i'r afael â dau o ofynion cyffredinol cynllun mynediad a ffioedd drwy nodi, yn adran 5 o'r ffurflen gais, sut mae'r corff llywodraethu yn bwriadu monitro cydymffurfio â:
- gofynion cyffredinol a lefelau ffi cynllun mynediad a ffioedd, a
 - sut y bydd y corff llywodraethu yn monitro perfformiad yn erbyn yr amcanion a nodwyd yn y cynllun.
150. Wrth asesu hyn, byddwn yn disgwyl cael dealltwriaeth weddol fanwl o'r canlynol:
- y grwpiau neu'r strwythurau pwyllgor sy'n monitro'r cynllun yn y flwyddyn y mae'r cynllun yn berthnasol iddi a sut maent yn asesu cydymffurfiaeth y sefydliad â'r cynllun,
 - hyd a lled ymgysylltiad y corff llywodraethu a
 - chyfranogiad myfyrwyr yn y prosesau, gan gynnwys myfyrwyr lle darperir addysg ar ran y sefydliad.
151. Rydym yn cydnabod ei bod hi'n bosibl na fydd y corff llywodraethu yn ymwneud â'r manylion gweithredol, a'i bod hi'n bosibl y bydd y lefel hon o fanylder wedi'i dirprwyo i bwyllgor arall, ond mae angen inni ddeall y broses a ddefnyddir i roi sicrwydd i'r corff llywodraethu i'w alluogi i wneud penderfyniadau deallus a chyflawni ei ddyletswydd mewn modd amserol.

Adran 6 - Gwerthuso cynlluniau mynediad a ffioedd

152. Mae'n ddyletswydd ar CCAUC i werthuso effeithiolrwydd cynlluniau mynediad a ffioedd unigol. Rydym yn gofyn i'r sefydliad, yn adran 6 o'r ffurflen gais, ddisgrifio sut y bydd yn gwerthuso effeithiolrwydd ei gynllun. Rydym yn disgwyl i'r sefydliad ddarparu gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r canlynol:
- y fframwaith y bydd yn ei ddefnyddio i werthuso'r cynllun mynediad a ffioedd,
 - rolau grwpiau a phwyllgorau yn y sefydliad wrth werthuso'r cynllun,
 - prosesau ar gyfer gweithredu newid ar ôl gwerthuso, ac
 - unrhyw agweddau penodol ar y cynllun a gaiff eu gwerthuso, ynghyd ag esboniad pam mai'r agweddau hynny fydd ffocws y gwerthusiad.
153. Gan fod gwerthuso cynllun mynediad a ffioedd yn rhoi cyfle i'r sefydliad nodi sut y gall gyflawni amcanion y cynllun mynediad a ffioedd yn fwy effeithiol, byddem yn disgwyl i'r sefydliad ddyrannu cyfran resymol o'i incwm ffioedd tuag at werthuso ei gynllun. Os bydd yn gwneud hynny, bydd yn ofynnol i'r sefydliad nodi sut y defnyddir y buddsoddiad hwn, a lefel y buddsoddiad yn Nhabl 'Buddsoddi Ffioedd' yn **Atodiad B**.
154. Yn 2019, gwnaethom gomisiynu AU Ymlaen i adolygu fframweithiau gwerthuso sy'n cael eu defnyddio gan sefydliadau yng Nghymru ac i roi arweiniad a dulliau effeithiol o werthuso Cynlluniau Mynediad a Ffioedd yn y dyfodol. Ceir hyd i adolygiad AU Ymlaen ar ein [gwefan](#). Disgwylir i'r holl sefydliadau a reoleiddir ymgysylltu â chanlyniadau'r adolygiad. Yn benodol, rydym yn disgwyl i'r holl sefydliadau ddatblygu fframweithiau

gwerthuso sy'n rhoi ystyriaeth i bob un o'r argymhellion ac sy'n gyson â'r egwyddorion yn yr adroddiad.

Rhan Tri: Tystiolaeth i CCAUC i gefnogi'r cais cynllun mynediad a ffioedd

155. Mae'n ofynnol i'r sefydliad gyflwyno tystiolaeth a data ategol i ni i gefnogi ei gynllun mynediad a ffioedd, fel y nodir isod. Nid oes angen cyhoeddi gwybodaeth a ddarperir yn Rhan Tri o'r ffurflen gais, gan alluogi'r sefydliad gyflwyno gwybodaeth fwy cryno a chyfeirio at ddogfennau a data y mae CCAUC yn ymwybodol ohonynt eisoes.

Tystiolaeth a data i gefnogi amcanion, targedau a gweithgareddau'r cynllun

156. Mae'n ofynnol i'r sefydliad gyflwyno tystiolaeth inni i roi esboniad manylach o'i gais am gynllun mynediad a ffioedd, gan gynnwys y cyd-destun a blaenoriaethau cyfredol. Wrth gyflwyno ei achos, mae'n ofynnol i'r sefydliad roi esboniad manwl gan gynnwys enghreifftiau. Lle cyfeirir at ddogfennau sefydliadol, rydym am gael dealltwriaeth glir o raddau a ffocws eu haliniad, yn hytrach na darparu rhestr neu ddolen inni'n unig. Dylai tystiolaeth a data gynnwys:
- sut mae'r cynllun yn gyson â'i genhadaeth a'i ddiben a dogfennau strategol allweddol, ei strategaeth sefydliadol a strategaethau a chynlluniau tanategol, ei gynllun cydraddoldeb strategol ac yn enwedig ei strategaeth ehangu mynediad,
 - sut mae pob amcan yn gyson â blaenoriaethau sefydliadol ehangach,
 - pa amcanion a gweithgareddau sy'n cyfrannu'n glir at ei ranbarth, ei gyfraniad at nodau a chenhadaeth ddinesig Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol,
 - sut y bydd gweithgareddau a gwasanaethau yn cefnogi ei grwpiau tangynrychioliedig,
 - y rhesymau pam bod unrhyw amcanion a thargedau'n wahanol i'r amcanion a thargedau yng nghynllun y flwyddyn flaenorol, gan gynnwys cyflwyno amcanion/targedau newydd neu hepgor targedau blaenorol,
 - sut y defnyddiwyd canlyniadau perfformiad ac ymarferion monitro a gwerthuso blaenorol yn sail ar gyfer y cynllun cyfredol, a
 - sut y defnyddiwyd canlyniadau asesu effaith yn sail i'r cynllun cyfredol, gan gynnwys asesiadau effaith cydraddoldeb.
157. Dylai'r sefydliad ystyried ymarfer effeithiol, y ceir tystiolaeth ohono mewn ymchwil a data rhanbarthol, cenedlaethol neu ryngwladol, lle bo'n berthnasol.
158. Ym mis Rhagfyr 2021, cyhoeddodd CCAUC fersiwn wedi'i diweddarau o gyfarwyddyd y [Rhaglen Ymggyraedd yn Ehangach](#). Mae'n rhaid holl fuddsoddiadau cynlluniau mynediad a ffioedd fod yn gyson â strategaeth a chynllun gweithredu diweddaraf y Rhaglen Ymggyraedd yn Ehangach. Bydd CCAUC yn asesu hyn yn rhan o'i waith monitro cynlluniau mynediad a ffioedd a'r Rhaglen Ymggyraedd yn Ehangach.
159. Dylai cynlluniau roi esboniad llawn ynghylch natur a graddfa ymrwymiad y sefydliad i'r Rhaglen Ymggyraedd yn Ehangach. Dylai'r cynlluniau drafod y canlynol yn benodol:
- gweithgareddau a buddsoddiadau sy'n cefnogi cynllun sefydliadol y Rhaglen Ymggyraedd yn Ehangach sydd wedi'i chyllido gan CCAUC sydd

wedi'u hymgorffori yng nghynllun mynediad a ffioedd 2023/24, gan gynnwys y grwpiau blaenoriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach,

- unrhyw gyfraniad yn y cynllun ffioedd at weithgarwch rhanbarthol y Bartneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach, a
- targedau ar gyfer gweithgarwch sefydliadol ac neu waith Partneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach .

160. Pan fydd sefydliad yn penderfynu ynghylch ffi bydd angen iddo esbonio'r sail a ddefnyddir ar gyfer hynny. Bydd hyn o gymorth i ddeall yr ymrwymiad i gefnogi amcanion, targedau a gweithgareddau'r cynllun.

Tystiolaeth a data i gefnogi ffocws y cynllun ar grwpiau tangynrychioledig

161. Mae'n rhaid i'r sefydliad ddarparu tystiolaeth a data yn yr adran hon o'r ffurflen gais, i gyfiawnhau pam y bydd y grwpiau tangynrychioledig a restrwyd yn adran 3 o'r cynllun yn derbyn cymorth o'r incwm ffioedd dysgu y rhoddir cyfrif amdano yn y cynllun mynediad a ffioedd.
162. Rydym yn cydnabod bod gwahanol ffyrdd o ddiffinio 'grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch'. Gall y diffiniadau gynnwys tangynrychiolaeth yng nghorff myfyrwyr sefydliad, gan gynnwys myfyrwyr mewn sefydliadau partner, yn ogystal â thangynrychiolaeth yn y system addysg uwch yng Nghymru neu'r DU yn fwy cyffredinol. Mae llawer o unigolion â nodweddion gwarchoddedig wedi'u tangynrychioli mewn addysg uwch.¹⁷ Cyfrifoldeb y sefydliad fydd rhoi tystiolaeth glir i ddangos sut y diffiniwyd y grwpiau wedi'u tangynrychioli yn yr adran hon.
163. Wrth ddarparu tystiolaeth a data, dylai'r sefydliad ystyried mai nod ehangu mynediad yng Nghymru yw sicrhau cyfle cyfartal, cynhwysiant, cynnydd a llwyddiant mewn addysg uwch. Bydd ehangu mynediad yn galluogi dysgwyr o bob oed, o gefndiroedd â blaenoriaeth, sy'n wynebu'r rhwystrau cymdeithasol ac economaidd mwyaf, i wireddu eu potensial fel myfyrwyr, dysgwyr gydol oes, dinasyddion a chyflogeion.
164. Wrth asesu'r adran hon o'r cais, byddwn yn disgwyl cael dealltwriaeth o'r modd y mae'r grwpiau tangynrychioledig a nodwyd yn adran 3 o'r ffurflen gais yn gyson â chenhadaeth, blaenoriaethau ac ymrwymadau yng nghynllun cydraddoldeb strategol y sefydliad, fel bo'n briodol. Rydym yn disgwyl i'r dystiolaeth gynnwys canlyniadau monitro a gwerthuso'r cynllun mynediad a ffioedd blaenorol, a chanlyniadau asesu effaith. Byddwn yn gofyn am wybodaeth neu ddata ychwanegol fel sail i'n dealltwriaeth o sut mae grwpiau a dangynrychiolir wedi'u nodi os bydd arnom angen esboniad. Gallai hyn olygu oedi cyn cymeradwyo cynlluniau.
165. Cadarnhewch pa grwpiau blaenoriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach y mae'r sefydliad yn eu targedu a pham. Mae'r grwpiau blaenoriaeth sefydliadol o dan Ymgyrraedd yn Ehangach wedi'u rhestru ym mharagraff 110 y cyfarwyddyd hwn.

¹⁷ Dyma'r nodweddion gwarchoddedig: oed; anabledd; ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; a rhyw.

166. Wrth nodi grwpiau tangynrychioledig, dylai'r sefydliad daro cydbwysedd rhwng maint y buddsoddiad a nifer y grwpiau y mae'n cynnig ymgysylltu â hwy. Mae'n bosibl na fydd gwasgaru'r buddsoddiad ar draws gormod o grwpiau yn galluogi'r sefydliad i greu cynnydd digonol o ran gwella cyfle cyfartal. Dylid dangos sut mae'r sefydliad wedi ystyried hyn yn yr adran hon.
167. Lle bo'r grwpiau tangynrychioledig sy'n cael eu cefnogi yn wahanol i'r rhai a gefnogwyd yn y blynyddoedd cynt, dylid esbonio'r rheswm am hynny yn yr adran hon.
168. Ni fydd pob unigolyn mewn grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch yn wynebu rhwystrau o ran mynediad, cynnydd a llwyddo mewn addysg uwch. Dylai sefydliadau ystyried hyn a thargedu'r myfyrwyr a'r darpar fyfyrwyr mwyaf difreintiedig. Gall ymgyrchoedd NUS Cymru i gefnogi'r grwpiau hyn fod yn sail i flaenoriaethau sefydliadau. Os ydynt yn sail, dylid nodi hynny'n glir yn yr adran hon.

Atodiad B - gwybodaeth i gefnogi ffurflen gais y cynllun mynediad a ffioedd

169. Mae'r adran hon o'r cyfarwyddyd yn berthnasol i **Atodiad B** y cais cynllun mynediad a ffioedd. Wrth lenwi'r tabl yn yr atodiad hwnnw, dylai sefydliadau ystyried cyfarwyddyd adran tri yn rhan gyntaf y templed.
170. **Taenlen sy'n cynnwys pum daflen waith yw Atodiad B.** Mae pob taflen waith yn casglu'r data canlynol (enw'r daflen waith mewn cromfachau):
- Incwm ffioedd gan fyfyrwyr gradd amser llawn a'r dystysgrif addysg i raddedigion (Statws Athro Cymwysedig) (TAR (SAC)) o adref ac yn hanu o'r UE o dan y gyfundrefn ffioedd gyfredol (incwm ffioedd).
 - Lleoliad, math, lefel, gwybodaeth am bartneriaeth a rhagolwg o nifer y myfyrwyr ar gyfer yr holl weithgarwch a reolir gan yr ymgeisydd (Lleoliadau)
 - Rhagolygon ariannol (Gwybodaeth ariannol)
 - Rhagolwg gwariant incwm y cynllun mynediad a ffioedd (Buddsoddi ffioedd)
 - Targedau (Targedau)
- ac fe'u disgrifir yn fanylach ym mharagraffau 171-213 isod.
171. Tablau enghreifftiol yn unig yw'r tablau a gyhoeddir yn **Atodiad B** y cylchlythyr hwn. Mae a wnelo'r naill â Sefydliadau Addysg Uwch a'r llall â Sefydliadau Addysg Bellach (SABau). Bydd yn rhaid i ymgeiswyr lenwi fersiwn electronig o un o'r tablau. Bydd templed unigol mewn Excel sy'n cynnwys y tablau i'w llenwi, yn cael ei anfon at sefydliadau a reoleiddir ar hyn o bryd. Bydd y templed wedi'i lenwi ymlaen llaw gan CCAUC â gwybodaeth o gynllun mynediad a ffioedd 2023/24 ac, ar gyfer sefydliadau AU a reoleiddir eisoes, gwybodaeth o'r rhagolygon diweddaraf a gyflwynwyd i CCAUC.
172. Bydd data sy'n ymwneud â'r swm yr oedd disgwyl ei fuddsoddi mewn cyfle cyfartal, hybu addysg uwch, gwerthuso, rhagolygon buddsoddi, Ymgyrhaedd yn Ehangach a chymorth ariannol i fyfyrwyr yng nghynllun mynediad a ffioedd 2023/24 wedi'u cynnwys ymlaen llaw ar y daflen waith '**Buddsoddi Ffioedd**'.

Bydd data a ragwelir ar gyfer 2023/24 yn gysylltiedig â ffioedd dysgu gros myfyrwyr cartref a'r UE ar gyrsiau israddedig amser llawn (gan gynnwys TAR), fel y cawsant eu cynnwys yn y rhagolygon diweddaraf a gyflwynwyd i CCAUC wedi'u cynnwys ymlaen llaw ar y daflen waith '**Gwybodaeth Ariannol**' (SAUau yn unig).

173. Dylai sefydliadau nad ydynt yn cael eu rheoleiddio ar hyn o bryd gysylltu â cyngorrheoleiddio@hefcw.ac.uk yn unol â'r broses a nodir ar ein gwefan er mwyn derbyn taflen waith buddsoddi [Hysbysiad o fwriad i gyflwyno cyllun mynediad a ffioedd](#).
174. **Dim ond yn y celloedd sydd wedi'u harlliwio'n felyn y dylid rhoi gwybodaeth.** Ni ddylid newid unrhyw gelloedd eraill ar unrhyw daflen waith mewn unrhyw ffordd. Mae hyn er mwyn cynnal fformiwlâu fel y rhai a ddefnyddir i gyfrif cyfansymiau ac i sicrhau bod modd cynnal archwiliadau dilysu a chymariaethau. Mae'r holl gelloedd nad ydynt yn felyn felly wedi'u cloi rhag i'r daenlen gael ei haddasu ar ddamwain. I weld y fformiwlâu yn unrhyw un o'r celloedd hyn gellir datgloi pob tudalen drwy fynd i'r rhuban '**Adolygu**', **dewis** 'Datgloi'r daenlen' a mewnbynnu'r cyfrinair **FAP23**. **Ni ddylid newid strwythur na chynllun y daenlen mewn unrhyw ffordd ychwaith.** Bydd cynnal cynllun safonol ar gyfer templedi sydd wedi'u cwblhau o gymorth wrth lenwi templedi cynlluniau mynediad a ffioedd y blynyddoedd nesaf â data o'r flwyddyn gynt, fel yr amlinellwyd ym mharagraff 164 y cynllun mynediad a ffioedd hwn.
175. Mae dilysiadau syml wedi cael eu hychwanegu at bob daflen waith, a bwriedir iddynt fod o gymorth i lenwi'r tabl, er enghraifft, os nodir niferoedd y myfyrwyr disgwylir hefyd ichi nodi'r ffioedd. Ni fwriedir i'r dilysiadau awgrymu unrhyw ddisgwyliadau ar ran CCAUC. Os yw'r data a fewnbynnir yn sbarduno dilysiad, bydd neges yn ymddangos yn goch ar ochr dde'r tabl. Bydd neges ' Adolygwch y negeseuon coch ar ochr dde'r tabl' yn ymddangos yn y bar llwyd ar ben bob taflen waith i hysbysu'r ymgeisydd bod y negeseuon hyn yn bresennol.
176. Ceir chwe thafelen waith yn **Atodiad B**, y rhai a restrir ym mharagraff 162 uchod, ac un daflen waith arall wedi'i labelu â '**Rhestrau**' sy'n cynnwys gwybodaeth gyfeiriol. Mae'r daflen waith hon yn cefnogi gweithrediad taflenni gwaith eraill. Nid yw'n cynnwys unrhyw fformiwlâu ac fe'i defnyddir i ddibenion cyfeirio yn unig. Gan na ddylid nodi unrhyw wybodaeth ar y daflen waith hon, na dileu unrhyw wybodaeth ohoni, mae'r holl gelloedd ynddi wedi'u cloi.
177. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau ynghylch y llyfr gwaith, neu eich bod yn profi unrhyw anawsterau technegol wrth ei ddefnyddio, cysylltwch â'r Tîm Ystadegau yn: hestats@hefcw.ac.uk.

Archwilio'r data a nodir yn Atodiad B

178. Mae'r prosesau a'r data a ddefnyddir wrth lenwi'r tablau yn **Atodiad B** wedi'u cynnwys yng nghwmpas yr archwiliad allanol ar ddata addysg uwch. Mae systemau a phrosesau a ddefnyddir i lenwi'r tablau hefyd wedi'u cynnwys yng nghwmpas yr archwiliadau mewnol blynyddol o systemau a phrosesau data addysg uwch. Efallai y bydd CCAUC yn gofyn am ragor o fanylion ynghylch

sut y cafodd targedau sydd wedi'u cynnwys ar y daflen waith '**Targedau**' yn **Atodiad B** ei cyfrifo, ac efallai y byddwn yn comisiynu archwiliad allanol sy'n canolbwyntio ar y prosesau a'r data a ddefnyddiwyd wrth gyfrifo'r targedau.

Incwm ffioedd myfyrwyr o adref ac sy'n hanu o'r UE ar gyrsiau TAR (SAC) ac israddedig amser llawn o dan y gyfundrefn ffioedd gyfredol.

179. Mae'r tabl ar y daflen waith '**Incwm ffioedd**' yn casglu gwybodaeth am incwm ffioedd a niferoedd myfyrwyr yn gysylltiedig â myfyrwyr o adref ac sy'n hanu o'r UE ar gyrsiau gradd a TAR (SAC) a reolir gan yr ymgeisydd o dan y gyfundrefn ffioedd gyfredol.

Cofiwch gynnwys gwybodaeth am gyrsiau:

- y mae'r ymgeisydd yn eu darparu, eu rheoli a'u dilysu ei hun,
- y mae'r ymgeisydd yn eu darparu a'u rheoli ac a ddilysir gan gorff arall ond nad ydynt yn rhan o gytundeb masnachfaint ¹⁸,
- y mae'r ymgeisydd yn eu darparu a'u rheoli, a ddilysir ganddo ei hun, ei riant neu gorff arall, lle bo'n is-gorff i'r rhiant-gorff hwnnw, ac nad yw'r rhiant-gorff yn cynnwys y cyrsiau yn ei gynllun mynediad a ffioedd,
- y mae'r ymgeisydd yn eu rhoi allan ar fasnachfaint i ddarparwyr elusennol yn y DU sydd naill ai'n elusennau neu'n rhiant-gyrff i is-gyrff elusennol nad ydynt yn cyflwyno eu cynllun mynediad a ffioedd eu hunain, a bod y myfyrwyr wedi'u lleoli yn y DU, ac
- a gyflwynir gan is-gorff elusennol yn y DU, lle bo'r ymgeisydd yn rhiant-gorff i'r is-gorff hwnnw, ac nad yw'r is-gorff yn cyflwyno ei gynllun mynediad a ffioedd ei hun.

Peidiwch â chynnwys gwybodaeth am gyrsiau:

- y mae'r ymgeisydd yn eu darparu ar ran darparydd arall drwy gytundeb masnachfaint,
- nad yw'r ymgeisydd yn eu darparu ac a ddilysir gan yr ymgeisydd yn unig,
- a gyflwynir gan is-gorff, lle bo'r ymgeisydd yn rhiant-gorff i'r is-gorff hwnnw, a lle bo'r is-gorff yn cyflwyno ei gynllun mynediad a ffioedd ei hun,
- y mae'r ymgeisydd yn eu rhoi allan ar fasnachfaint i ddarparydd nad yw'n elusen, ac
- a ddarperir gan is-gorff nad yw'n elusen, lle bo'r ymgeisydd yn rhiant-gorff i'r is-gorff hwnnw.

180. Rhennir y data sydd i'w dychwelyd yn y tabl ar sail darpariaeth ar fasnachfaint allanol / wedi'i his-gontractio. Ar gyfer pob math o fyfyrwr a restrir yn y tabl, dylid nodi'r nifer a ragwelir o fyfyrwyr yng **ngholofn C** a chyfanswm yr incwm ffioedd a ragwelir yn gysylltiedig â hwy yng **ngholofn D**. Dylai data a gofnodir yng **ngholofn C** ac yng **ngholofn D** fod yn gyson â'r data a gasglwyd ar y daflen waith '**Gwybodaeth ariannol**'.

Lleoliad, math, lefel, gwybodaeth am bartneriaeth a rhagolwg niferoedd myfyrwyr ar gyfer yr holl weithgarwch a reolir gan yr ymgeisydd

¹⁸ Mae CCAUC yn defnyddio'r term 'Masnachfaint' wrth gyfeirio at ddarpariaeth a gyflenwir drwy drefniadau partneriaeth sy'n cynnwys trefniadau is-gontractiol /cydweithredol - gweler yr eirfa ar ein [gwefan](#).

181. Mae'r tabl ar y daflen waith '**Lleoliadau**' yn casglu gwybodaeth am yr holl weithgarwch y rhagwelir y bydd yn digwydd yn 2023/24 ac a reolir gan yr ymgeisydd. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth amser llawn a rhan-amser ar lefel gradd a ôl-radd ac addysg bellach ac addysg bellach ac ar lefel is na hynny. Mae'n casglu gwybodaeth am y sefydliad sy'n cyflenwi'r ddarpariaeth, y lleoliad, y math a lefel y ddarpariaeth, y niferoedd a ragwelir o fyfyrwyr a phartneriaethau'r ymgeisydd. Dylid cofnodi gweithgarwch oddi mewn ac oddi allan i'r DU yma.
182. Os oes disgwyl i bartneriaethau fod yn eu lle ar gyfer blwyddyn academaidd 2023/24 ond nad ydynt wedi'u llunio'n derfynol erbyn amser cyflwyno cais cynllun mynediad a ffioedd 2023/24 i CCAUC ym mis Mawrth, dylai sefydliadau eu hepgor o'r wybodaeth a gyflwynir. Os caiff partneriaeth newydd ei llunio'n derfynol yn 2023/24 a'i bod yn ymwneud â chwrs israddedig llawn amser a chwrs TAR (SAC) lle mae angen cefnogaeth i fyfyrwyr, bydd angen amrywio'r cynllun.
183. Mae data i'w dychwelyd ar y daflen waith '**Lleoliadau**' yn cynnwys yr holl weithgarwch a reolir gan yr ymgeisydd. Mae hyn yn cynnwys yr holl foddau a lefelau gan gynnwys addysg bellach ac is, wedi'u lleoli yn y DU neu wlad dramor gan gynnwys yr UE:
- y mae'r ymgeisydd yn eu darparu, eu rheoli a'u dilysu ei hun,
 - y mae'r ymgeisydd yn eu darparu a'u rheoli ac a ddilysir gan gorff arall,
 - y mae'r ymgeisydd yn eu darparu a'u rheoli, a ddilysir ganddo ei hun, ei riant-gorff neu gorff arall, lle bo'n is-gorff i'r rhiant-gorff hwnnw, ac nad yw'r rhiant-gorff yn cynnwys y ddarpariaeth yn ei gynllun mynediad a ffioedd,
 - y mae is-gorff yr ymgeisydd yn eu darparu, lle bo'r ymgeisydd yn rhiant-gorff i'r is-gorff ac nad yw'r is-gorff yn cyflwyno ei gynllun mynediad a ffioedd ei hun,
 - y mae'r ymgeisydd yn eu rhoi allan ar fasnachfaint,
 - y mae'r ymgeisydd yn eu darparu ar y cyd â phartner, ac
 - nad yw'r ymgeisydd yn eu darparu, ond eu dilysu'n unig.
184. Dylid darparu un rhes o ddata ar gyfer pob cyfuniad o sefydliad darparu, cyfeiriad lleoliad, math a lefel y gweithgarwch a'r math o bartneriaeth. Dyluniwyd y tabl hwn er mwyn rhoi trosolwg o'r holl weithgarwch y mae'r ymgeisydd yn ymwneud ag ef, felly ni fydd gwybodaeth partneriaeth yn berthnasol ym mhob rhes, fel y dangosir ym mharagraff 182 isod.
185. Dylid nodi enw'r sefydliad sy'n cyflawni'r gweithgarwch yng **ngholofn B** a'i UKPRN yng **ngholofn C**. Os yw'r gweithgarwch yn cael ei gyflawni gan yr ymgeisydd, dylid nodi enw ac UKPRN yr ymgeisydd. Os darperir y gweithgarwch gan sefydliad arall drwy bartneriaeth fel trefniant masnachfaint, is-gorff, trefniant dilysu neu drefniant is-gontractiol neu gydweithredol arall, dylid nodi enw ac UKPRN y sefydliad arall hwnnw.
186. Dylid nodi cyfeiriad y campws lle cyflenwir y ddarpariaeth, neu'r sefydliad ei hun os nad oes ond un prif gampws, yng **ngholofn D**.

187. Yng **ngholofn E**, dylid nodi'r math o weithgarwch. Gellir dewis dysgu ac addysgu, neu ymchwil, o'r gwymprestr. Os nad yw'r math o weithgaredd yn ddysgu ac yn addysgu nac yn ymchwil, dylid teipio disgrifiad yng **ngholofn E**.
188. Yng **ngholofn F**, dylid dewis y lefel astudio o'r gwymprestr. Os nad yw'r cymhwyster sy'n cael ei astudio yn perthyn i'r lefelau sydd ar gael ar y gwymprestr (gradd, ôl-radd, addysg bellach), dylid teipio'r lefel yng **ngholofn F**.
189. Yng **ngholofn G**, dylid nodi'r nifer a ragwelir o fyfyrwyr a fydd yn cyflawni'r gweithgarwch.
190. Dylid nodi a yw'r gweithgarwch yn cael ei gyflawni gan bartner ai peidio yng **ngholofn HOs** nad yw'r gweithgarwch yn cael ei gyflawni gan bartner, nid oes angen llenwi **colofnau I, J na K**. Dylid nodi a yw'r partner yn elusen ai peidio yng **ngholofn I** drwy ddefnyddio'r gwymprestr Y/N. Dylid nodi'r math o bartneriaeth yng **ngholofn J** drwy ddefnyddio'r gwymprestr, a dyddiad y cytundeb partneriaeth yng **ngholofn K**.
191. Ni fyddem ond yn disgwyl leoliadau ymchwil sy'n eiddo i brifysgolion gael eu cynnwys yn yr adran hon. Ni ddylid ond cynnwys y rhain os ydynt yn wahanol i'w prif lleoliad addysgu.

Rhagolygon ariannol

192. Fel y nodwyd ym mharagraff 163 uchod, ceir dwy fersiwn o'r daflen waith '**Gwybodaeth ariannol**', y naill ar gyfer SAUau a'r llall ar gyfer SABau. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn y tablau enghreifftiol yn Atodiad B y cylchlythyr hwn, ond ni fydd ymgeiswyr a reoleiddiwyd yn flaenorol ond yn derbyn y fersiwn sy'n berthnasol iddynt hwy yn y templed sydd wedi'i bersonoli ar eu cyfer.
193. Mae'r daflen waith '**Gwybodaeth ariannol**' yn casglu gwybodaeth sy'n cysoni incwm a ragwelir yn 2023/24 o ffioedd myfyrwyr cartref a'r UE ar gyrsiau israddedig amser llawn a TAR (SAC) o dan y gyfundrefn ffioedd gyfredol a nodwyd ar y daflen waith '**Incwm ffioedd**' ynghyd â rhagolygon a ddarparwyd naill ai i CCAUC (SAUau) neu i Lywodraeth Cymru (SABau), neu ddiweddariadau dilynol i'r rhagolygon hynny.
194. Ceir dau dabl ar y daflen waith hon, ac mae'n rhaid i ymgeiswyr lenwi **un** yn unig.
195. Dangosir y tabl i'w lenwi wrth nodi Y neu N i'r cwestiwn cyntaf, sy'n gofyn a yw'r cynllun mynediad a ffioedd wedi cael ei baratoi'n seiliedig ar ragolygon a gyflwynwyd eisoes i CCAUC (SAUau) neu Lywodraeth Cymru (SABau). Mae'n **rhaid** nodi Y neu N yma i ddynodi pa dabl i'w lenwi ac er mwyn i ddilysiadau'r daflen waith hon weithio'n gywir. Os ydych yn llenwi'r daflen waith ar sail rhagolygon **a gyflwynwyd**, bydd yn rhaid llenwi **tabl 1**. Os ydych yn llenwi'r daflen hon ar sail rhagolygon **newydd**, bydd yn rhaid llenwi **tabl 2**.
196. Mae'r cysoniadau wedi'u llenwi dros dro â thestun i ddangos yr addasiadau fu eu hangen i gysoni cynlluniau mynediad a ffioedd blaenorol â rhagolygon. Ni

ddylid ystyried bod y rhain yn gynhwysfawr, a dylid ysgrifennu drostynt lle bo'n berthnasol.

197. Cwblheir rhagolygon drwy ddilyn y cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan CCAUC yn [W21/16HE: Cais am ragolygon 2021](#) (SAUau) neu gan Lywodraeth Cymru (SABau yn unig). Os nad yw darparydd yn SAU a reoleiddir gan CCAUC nac yn SAB, bydd yn rhaid trafod â CCAUC sut mae'r cyfarwyddyd hwn yn berthnasol iddo.
 198. Mae'r adran 'Dilysu Incwm' (sydd wedi'i chynnwys yn nhabl 1 a 2) ar y daflen waith hon yn cymharu cyfanswm y ffioedd a ragwelwyd yn y cynllun mynediad a ffioedd ar gyfer myfyrwyr cartref ac UE ar gyrsiau TAR (SAC) ac israddedig amser llawn o dan y gyfundrefn ffioedd gyfredol o'r daflen waith 'Incwm ffioedd' â'r rhagolygon a gyflwynwyd i CCAUC/Llywodraeth Cymru (tabl 1) neu'r rhagolygon newydd (tabl 2) ac yn cyfrifo'r gwahaniaeth a ddangosir fel amrywiant. Gofynnir i ymgeiswyr restru eitemau cysoni i esbonio'r amrywiant. Ar ôl cwblhau'r eitemau cysoni a'r rhagolygon incwm cysylltiedig dylai ffigur terfynol y tabl fod yn hafal i sero. O nad yw'n hafal i sero bydd neges goch yn ymddangos ar ochr dde'r tabl. Fodd bynnag, caniateir goddefiant o +/- £5k wrth ddilysu. Cesglir incwm ffioedd mewn £ ar y daflen waith '**Incwm ffioedd**' ac mewn £'000oedd ar y daflen waith '**Gwybodaeth Ariannol**'. Caiff data o'r daflen waith 'Gwybodaeth Ariannol' a'r daflen waith 'Incwm ffioedd' eu talgrynnu i'r £1,000 agosaf cyn iddynt gael eu dilysu.
 199. Os yw'r ymgeisydd yn darparu rhagolygon data newydd, ac felly'n llenwi tabl 2, dylid darparu gwybodaeth yn gysylltiedig ag incwm, gwariant, gwarged a datganiad cyfunol o lif arian yn y celloedd melyn ar gyfer yr holl flynyddoedd dan sylw. Ceir canllawiau ar gwblhau'r eitemau hyn yn y cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan CCAUC neu Lywodraeth Cymru.
 200. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau ynghylch diffiniadau o ragolygon ariannol a ddefnyddiwyd ar y daflen waith hon, cysylltwch â'r Tîm Cynaliadwyedd a Sicrwydd yn assurance@hefcw.ac.uk.
- Rhagolwg o'r buddsoddiad o incwm y cynllun mynediad a ffioedd.
201. Mae'r tabl ar y daflen waith '**Buddsoddi ffioedd**' yn dangos y buddsoddiad a ymrwymwyd i gyflawni pob amcan, i werthuso cynlluniau mynediad a ffioedd, ar gyfer ymgyrraedd yn ehangach ac ar gyfer cymorth ariannol.
 202. Yn adrannau a) a b) y tabl hwn, mae'r **amcanion a ddewiswyd** a'r buddsoddiad a ragwelir, fel y'u hamlinellwyd yng nghynllun mynediad a ffioedd 2022/23 yr ymgeisydd wedi'u cynnwys ar ben uchaf y tabl yn yr adran sy'n dwyn y teitl 'Amcanion o Gynllun Mynediad a Ffioedd 2022/23'. Os yw'r ymgeisydd yn dymuno parhau i ddefnyddio'r holl amcanion hyn, neu rai ohonynt, dylid nodi'r buddsoddiad a ragwelir yn 2023/24 yn y celloedd melyn gyferbyn â phob amcan perthnasol yng **ngholofn K**, a gadael **colofn K** yn wag ar gyfer unrhyw amcanion amherthnasol.
 203. Os yw'r ymgeisydd yn dymuno ychwanegu amcanion newydd, dylid nodi'r rhain yn yr adran â'r teitl 'Amcanion newydd' yn y celloedd melyn yng

ngholofn B, a nodi'r buddsoddiad cyfatebol a ragwelir ar gyfer 2023/24 yng **ngholofn K**.

204. Nid oes angen diwygio'r rhagolwg buddsoddiad a lanwyd ymlaen llaw ar gyfer 2022/23 ar gyfer unrhyw amcanion o 2022/23 na fwriedir eu defnyddio na darparu rhagolwg buddsoddiad 2022/23 ar gyfer unrhyw amcanion newydd.
205. Os rhagwelir buddsoddiad yn erbyn mwy nag un amcan, dylid ei rannu rhwng yr amcanion.
206. **Rhaid i fuddsoddiad mewn cyflawni amcanion i wella cyfleoedd cyfartal ymwneud â grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch yn unig.**
207. Yn y rhannau o'r tabl hwn sy'n weddill, c) i f), mae ffigurau 2022/23 hefyd wedi cael eu llenwi ymlaen llaw o gynllun mynediad a ffioedd 2022/23.
208. Cesglir buddsoddiad a ragwelir wrth werthuso effeithiolrwydd cynlluniau mynediad a ffioedd yn adran (c) ac incwm sy'n cael ei wario ar Ymgyrraedd yn Ehangach yn adran (e).
209. Bydd gweithgareddau cymorth ariannol i fyfyrwyr yn rhan o gyfanswm y buddsoddiad mewn amcanion i gefnogi cyfleoedd cyfartal a/neu hybu addysg uwch (fel y nodir yn (a) a (b)). Yn adran (f) gofynnir i'r ymgeisydd nodi ar wahân y buddsoddiad a ragwelir mewn gweithgarwch i roi cymorth ariannol i fyfyrwyr **sydd eisoes wedi'u gynnwys** yn (a) a (b) a'r rhagolygon o nifer y myfyrwyr fydd yn derbyn yn derbyn cymorth.
210. Pan fo canran yr incwm y rhagwelir y bydd yn cael ei buddsoddi mewn cyfle cyfartal (a) neu hybu addysg uwch (b) yn wahanol i'r ganran yn 2022/23, neu fod canran y gwariant ar gefnogaeth i fyfyrwyr (f) yn is na'r ganran yn 2022/23, gofynnir ichi esbonio pam ar y daflen waith.

Targedau

211. Dylai cynllun mynediad a ffioedd gynnwys targedau sefydliadol CAMPUS sy'n cyfrannu at ddangos ymrwymiad yr ymgeisydd i gynyddu a/neu gynnal nifer y myfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch, neu amcanion eraill y cynllun mynediad a ffioedd, fel sy'n briodol. Dylai'r targedau ddangos lefel yr uchelgais a chyflymder y cynnydd sydd i'w sicrhau yn sgil darpariaeth a buddsoddiad y cynllun mynediad a ffioedd.
212. Mae CCAUC yn cydnabod nad yw'n fuddiol nac yn ystyrion gosod targedau yn holl feysydd y cynllun mynediad a ffioedd. Dylai'r cynlluniau gynnwys targedau digonol i ddarparu cofnod llawn o lefel y buddsoddiad cyhoeddus mae'r cynllun yn ymwneud ag ef, a'r elw arno. Bydd lefel y buddsoddiad cyhoeddus yn wahanol rhwng gwahanol ddarparwyr AU, yn ogystal â nifer y targedau.
213. Mae'r tabl ar y daflen waith '**Targedau**' yn casglu data am dargedau ac amcanion a osodwyd gan yr ymgeisydd. Gellir cael hyd i wybodaeth bellach yn gysylltiedig â thargedau ac amcanion ym mharagraffau 109 i 121.

214. Mae angen targedau hirdymor a tharged carreg filltir ar gyfer y flwyddyn y mae'r gynllun mynediad a ffioedd yn berthnasol iddi. Mae'n rhaid cael disgrifiad i gyd-fynd â phob targed sy'n cynnwys cynnydd neu ostyngiad mewn nifer neu ganran fel bo'n briodol. Rhaid cynnwys y nifer/ganran gyfatebol fel gwybodaeth gyd-destunol.
215. Dylid nodi'r targed, y disgrifiad ohono a'r wybodaeth gyd-destunol ar gyfer y targed hirdymor a'r targedau cerrig milltir ar y daflen waith '**Targedau**' fel y disgrifir isod.
216. Dylai targed fod yn seiliedig ar Fesurau Cenedlaethol a gall hefyd fod yn darged penodol i sefydliad. Dylid nodi hyn yng **ngholofn B** drwy ddefnyddio'r gwymprestr.
217. Dylid rhoi disgrifiad o'r targed, hy, yr hyn y mae'r targed yn anelu i'w gyflawni, yng **ngholofn C**, gan gynnwys naill ai canran neu rif neu'r ddau.
218. **Gofynnir yng ngholofn D** am yr amcan, ac mae'n rhaid iddo gyfateb â'r rhai sydd wedi'u rhestru ar y daflen waith '**Buddsoddi ffioedd**' yn gysylltiedig â chyfle cyfartal neu hybu addysg uwch. Mae'n rhaid cynnwys un targed o leiaf ar gyfer pob amcan ar y daflen waith '**Targedau**' .
219. **Yng** ngholofn E a cholofn F, gofynnir a oes mwy nag un ymgeisydd cynllun mynediad a ffioedd yn gyfrifol am y targed.
220. **Mae'r bedwaredd golofn, colofn G yn gofyn am y flwyddyn waelodlin, sef fel arfer y flwyddyn lle bo'r data mwyaf diweddar ar gael. Os nad dyma'r achos, dylid rhoi sylwadau i esbonio pam yng** ngholofn U.**Mae colofn H a cholofn I yn gofyn am y data gwaelodlin. Os mai dim ond rhif neu ganran a roddir, dylid cynnwys gwybodaeth gyd-destunol yng** **ngholofnau J, K ac L.**
221. **Yng** ngholofn M a cholofn N gofynnir am y targed carreg filltir y mae'r ymgeisydd yn gweithio tuag ato. Rhaid cynnwys canran neu rif, neu'r ddau os yw hynny'n bosib. Os mai dim ond rhif nu ganran a roddir, dylid cynnwys gwybodaeth gyd-destunol yng **ngholofnau O, P a Q.** Er enghraifft, os yw cynnydd canran mewn myfyrwyr o grŵp penodol yn darged, dylech gynnwys yn yr wybodaeth gyd-destunol y cynnydd disgwylidig ar gyfer y grŵp hwn a/neu'r boblogaeth ddisgwylidig o fyfyrwyr y mae'r ganran wedi'i seilio arni. Dylai'r niferoedd poblogaeth fod yn gyson â'r wybodaeth arall sydd wedi'i nodi yn yr Atodiad hwn a'ch rhagolygon diweddaraf ar gyfer niferoedd myfyrwyr, hy, y rhai a anfonwyd i CCAUC ym mis Gorffennaf 2021 neu ffigurau wedi'u diweddarau. Dim ond ar gyfer targedau cerrig milltir 2023/24 a'r data gwaelodlin y mae hyn yn ofynnol, nid ar gyfer y targedau yn y dyfodol.
222. **Mae** Colofn R, S a T yn gofyn am y targed tymor hwy, gan ofyn am y flwyddyn y mae'r targed yn berthnasol iddi, y nifer ac/neu'r ganran.
223. Mae'r data cyd-destunol yn darparu gwybodaeth am sut cafodd y targed ei gyfrif, graddfa'r gweithgarwch a lefel y perfformiad. Bydd yn galluogi asesiad o raddfa'r uchelgais a'r cynnydd i'w wneud gan CCAUC a'r bwrdd llywodraethwyr. Defnyddir yr wybodaeth gyd-destunol i ddeall yn llawnach a yw unrhyw gynnydd neu ostyngiad yn y targed yn trosi i wahaniaethau

sylweddol yn nifer y myfyrwyr lle nodir canrannau neu mewn canrannau lle nodir rhifau.

224. Rhai pwyntiau i'w nodi wrth lenwi'r daflen waith **'Targedau'**:

- Dylai'r targedau fod yn ddigonol o ran nifer, ac ar y lefel briodol, fel sail i fonitro. Gall rhai 'targedau', lle nad ydynt yn dargedau CAMPUS digonol, gael eu mynegi'n well yn adran darpariaeth naratif y cynlluniau, ac mae hyn yn cynnwys targedau heb ddata na llinellau sylfaen. Dylai targedau alluogi CCAUC, a'r corff llywodraethu, i roi cyfrif am gynnydd a buddsoddiad.
- Daeth rhaglen Cymunedau yn Gyntaf i ben ym mis Mawrth 2018. Bydd targedau cynlluniau mynediad a ffioedd sy'n seiliedig ar ddata Cymunedau yn Gyntaf yn anodd eu monitro, ac rydym yn cynghori na ddylid eu defnyddio.
- Ar gyfer targedau seiliedig ar gyrchfannau sy'n berthnasol i ganlyniadau arolwg Deilliannau Graddedigion HESA, efallai y bydd yn rhaid seilio'r data gwaelodlin ar arolwg HESA o gyrchfan ymadawyr addysg uwch (DLHE). Efallai y bydd rhaid i dargedau fod yn fwy uchelgeisiol na phan oedd y waelodlin a'r targed yn seiliedig ar y DLHE, i ystyried y cyfnod estynedig o amser ar gyfer yr arolwg newydd.
- Rhaid i gynlluniau gynnwys targedau y gellir eu cyflawni erbyn diwedd blwyddyn academaidd 2023/24, neu rhaid iddynt gynnwys targedau carreg filltir 2023/24 sy'n cyfrannu at darged tymor hwy, er mwyn gallu adrodd ar gynnydd erbyn Rhagfyr 2024. Er enghraifft, ar gyfer targedau a fesurir yn ôl cyflawniad yn erbyn meincnodau dangosydd perfformiad y DU, dylid gosod targedau sy'n dangos cynnydd yn erbyn dangosyddion perfformiad 2022/23 HESA er mwyn i CCAUC ddadansoddi targedau yn erbyn data meincnod sydd ar gael erbyn mis Rhagfyr 2024.
- Os yw'r targed yn fesuradwy erbyn diwedd 2023 ond ddim yn ymwneud â data 2023/24, dylid gwneud nodyn yn y bocs sylwebaeth i esbonio pa ddata a ddefnyddiwyd.

Rhesymau dros gasglu data yn Atodiad B.

225. Mae'r data a nodir ar y daflen waith **'Incwm ffioedd'** yn darparu'r cyfanswm incwm sydd ar gael o ffioedd i'w fuddsoddi, a hefyd yn galluogi CCAUC i asesu'r lefelau ffi cyfartalog a godir gan fyfyrwyr gradd amser llawn a TAR (SAC) cartref ac sy'n hanu o'r UE o dan y gyfundrefn ffioedd gyfredol.

226. Defnyddir data a nodir ar y daflen waith **'Lleoliadau'** i ddarparu data i'w hystyried yn asesiad CCAUC o ansawdd; i fonitro'r trefniadau partneriaeth sydd ar waith yn y DU, ac i fonitro trefniadau partneriaeth a champws sydd ar waith dramor.

227. Defnyddir data a nodir ar y daflen waith **'Gwybodaeth ariannol'** wrth asesu cynaliadwyedd ariannol.

228. Bydd data a nodir ar y daflen waith **'Buddsoddi ffioedd'** yn galluogi CCAUC i asesu lefel yr incwm ffioedd gan fyfyrwyr ar gyrsiau gradd amser llawn a TAR (SAC) cartref ac sy'n hanu o'r UEo dan y gyfundrefn ffioedd gyfredol a gaiff ei

buddsoddi mewn cyfle cyfartal, hybu addysg uwch, Partneriaethau Ymgynraedd yn Ehangach, gwerthuso effeithiolrwydd cynlluniau mynediad a ffioedd a chymorth ariannol i fyfyrwyr.

229. Bydd data a nodir ar y daflen waith '**Targedau**' yn cael eu defnyddio gan CCAUC i asesu'r graddau y mae'r ymgeisydd wedi cyflawni amcanion ei gynllun mynediad a ffioedd.

Sut y bydd CCAUC yn rheoli proses cynlluniau mynediad a ffioedd 2023/24

219. Amlinellir isod y prosesau i'w dilyn wrth i sefydliad gyflwyno cynllun mynediad a ffioedd am y tro cyntaf, a phroses gymeradwyo CCAUC. Byddwn yn cysylltu ar wahân â sefydliadau a reoleiddir eisoes, i esbonio'r hyn a ddisgwylir ganddynt.
220. Mae'n rhaid i'r sefydliad gynnwys yr wybodaeth ganlynol:
- Gwybodaeth reoleiddio sy'n dangos bod y sefydliad yn gymwys i gael ei dderbyn i'r sector rheoleiddiedig yng Nghymru.
 - Ei ymrwymiad manwl i wella cyfle cyfartal hybu addysg uwch.
 - Tystiolaeth atodol i gefnogi'r cynllun mynediad a ffioedd.
 - Tystiolaeth o gymeradwyaeth y corff llywodraethu.
221. Bydd y sefydliad yn derbyn dau dempled:
- Ffurflen gais cynllun mynediad a ffioedd, gan gynnwys ffurflen cymeradwyaeth y corff llywodraethu.
 - Dogfen excel i ategu'r wybodaeth a ddarparwyd yn yr wybodaeth reoleiddio a'r cynllun mynediad a ffioedd.
- Ar gyfer sefydliadau sy'n cael eu rheoleiddio ar hyn o bryd, bydd CCAUC yn llenwi'r templedi ymlaen llaw os yw'r data perthnasol ganddo. Ar gyfer sefydliadau sy'n gwneud cais am gynllun mynediad a ffioedd am y tro cyntaf, bydd CCAUC yn darparu ffurflen gais safonol, heb wybodaeth fuddsoddi, o gysylltu â cyngorrheoleiddio@hefcw.ac.uk.

Cyflwyno

222. Dylai sefydliadau sy'n gwneud cais am gynllun mynediad a ffioedd am y tro cyntaf gysylltu â CCAUC i ddechrau i drafod eu bwriad i gyflwyno cais. Yn rhan o'r drafodaeth honno byddwn yn cytuno ar amserlen briodol ar gyfer cyflwyno.
223. Corff llywodraethu'r sefydliad sydd yn gyfrifol am y cynllun mynediad a ffioedd, ac mae'n rhaid iddo gymeradwyo'r cais cychwynnol i CCAUC a'r fersiwn derfynol o'r cynllun wrth ei ailgyflwyno, ar ôl i'r cynllun gael ei ddiwygio yn dilyn trafodaethau a CCAUC. Rydym yn disgwyl i gynrychiolwyr myfyrwyr fod yn rhan o'r broses gymeradwyo. Efallai y bydd y sefydliad yn dymuno sicrhau awdurdod dirprwyol ei gorff llywodraethu yn fuan yn y broses os yw hynny'n briodol.
224. Dylai ceisiadau cynlluniau mynediad a ffioedd wedi'u cwblhau gael eu huwchlwytho i'n gwefan ddiogel yn <https://transfer.hefcw.ac.uk/uploadfap>. Dylid labelu pob ffeil yn glir ag enw'r sefydliad, disgrifiad o'r ffeil a'r dyddiad cyflwyno. Ni chaniateir defnyddio mwy na 255 o nodau ar gyfer enw ffeil. Cyflwynwch:
- **Atodiad A** ar ffurf Word
 - **Atodiad B** ar ffurf Excel.
 - Dylai taflen gymeradwyo'r corff llywodraethu fod ar ffurf PDF.

Asesiad CCAUC o gynlluniau mynediad a ffioedd

225. Bydd ceisiadau cynllun mynediad a ffioedd a dadansoddiad cychwynnol CCAUC ohonynt yn cael eu hystyried gan Bwyllgor Rheoleiddio CCAUC.¹⁹ Bydd CCAUC yn rhoi adborth cychwynnol i sefydliadau, gan roi ystyriaeth i gyngor y Pwyllgor.
226. Bydd CCAUC yn asesu ceisiadau cynllun mynediad a ffioedd yn erbyn y meini prawf a ganlyn:

Cadernid y dystiolaeth o ran:

Gwybodaeth Reoleiddiol

- bod yn sefydliad yng Nghymru,
- darparu addysg uwch,
- bod yn elusen,
- hyfywedd ariannol,
- trefnu a rheoli materion ariannol yn effeithiol, ac
- ansawdd yr addysg a ddarperir ganddo neu ar ei ran.

Cadernid y dystiolaeth o ran:

Cynlluniau Mynediad a Ffioedd

- darparu gwybodaeth glir am lefelau ffi, gan sicrhau nad yw ffioedd yn uwch na'r terfynau y caniateir eu codi,
- rhoi esboniad llawn ynghylch sut mae'r bartneriaeth â myfyrwyr wedi llywio datblygiad y cynllun mynediad a ffioedd,
- nodi a chefnogi grwpiau tangynrychioledig er mwyn gwella cyfle cyfartal mewn addysg uwch,
- gosod amcanion uchelgeisiol a'r graddau y maent yn dangos bwriadau'r sefydliad i wella cyfle cyfartal a hybu addysg uwch,
- gosod targedau sy'n dangos ymrwymiad hirdymor i wella deilliannau myfyrwyr, wedi'u halinio â mesurau cenedlaethol CCAUC,
- ymrwymo i fuddsoddi cyfran briodol o'r incwm ffioedd er mwyn gwella cyfle cyfartal a hybu addysg uwch,
- dangos sut y bydd gweithgareddau a gwasanaethau yn cyfrannu'n effeithiol at gyflawni'r amcanion, a
- manylu ar drefniadau llywodraethu ac ymgysylltu â myfyrwyr, gan gynnwys sut y bydd y sefydliad yn monitro ac yn gwerthuso cynllun mynediad a ffioedd 2023/24.

Proses CCAUC ar gyfer cymeradwyo a gwrthod cynlluniau mynediad a ffioedd

227. Ar ôl cwblhau prosesau dadansoddi ac iteru cynlluniau mynediad a ffioedd CCAUC â'r sefydliadau, bydd CCAUC yn cymeradwyo neu'n penderfynu gwrthod cynlluniau.

Ni fydd CCAUC yn cymeradwyo cynlluniau mynediad a ffioedd onid yw'n fodlon bod y sefydliad wedi darparu gwybodaeth reoleiddio briodol ac wedi dangos i raddau boddhaol ei ymrwymiad i wella cyfle cyfartal a hybu addysg uwch.

¹⁹ www.hefcw.ac.uk/cy/amdanom-ni/llywodraethu/pwyllgorau/

Cymeradwyo a chyhoeddi

228. Bydd CCAUC yn cadarnhau bod cynllun mynediad a ffioedd wedi'i gymeradwyo drwy ysgrifennu at gorff llywodraethu sefydliad.
229. Os bydd cais y sefydliad yn llwyddiannus, bydd yn rhaid iddo gyhoeddi ei gynllun cymeradwy ar ei wefan, gan gynnwys dyddiad cymeradwyaeth CCAUC a'r dyddiad cyhoeddi.²⁰ Rydym yn disgwyl i'r cynllun mynediad a ffioedd (rhan 2 o'r ffurflen gais) gael ei gyhoeddi ar yr un dudalen we ag a ddefnyddir i amlinellu ffioedd dysgu. Gellir cysylltu'r cynllun mynediad a ffioedd cymeradwyo â thudalennau gwe eraill yn ôl yr angen. Byddai'n arfer da cynnwys crynodeb o'r cynllun ar y dudalen we sy'n cynnwys y ddolen. Mae'n rhaid rhannu'r ddolen i'r cynllun mynediad a ffioedd sydd wedi'i gyhoeddi â CCAUC cyn pen 14 diwrnod ar ôl ei gymeradwyo. Bydd yn rhaid rhoi gwybod i CCAUC am unrhyw newidiadau i'r ddolen cyn pen 7 diwrnod gwaith ar ôl y newid hwnnw.
230. Gellir cyflwyno ceisiadau cynlluniau mynediad a ffioedd i CCAUC yn arddull gorfforaethol y sefydliad, gan gydnabod y bydd y fersiwn gymeradwy'n cael ei chyhoeddi ac yn rhan o ddogfennau corfforaethol y sefydliad. Fodd bynnag, ni cheir amrywio'r testun a gyhoeddir mewn unrhyw ffordd o'r cynllun a gymeradwywyd gan CCAUC.
231. Nid oes angen cyhoeddi unrhyw nodiadau cyfarwyddyd gan CCAUC, gan gynnwys y rhai sy'n rhan o'r ffurflen gais.
232. Bydd CCAUC yn rhoi gwybod i'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr am gynlluniau mynediad a ffioedd cymeradwy a therfynau ffioedd ar gyfer cyrsiau israddedig llawnamser ar gyfer 2023/24 fel y cytunwyd yn y cynllun mynediad a ffioedd. Yn ogystal, bydd CCAUC yn cadarnhau â'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr pa elusennau sy'n darparu cyrsiau gradd amser llawn ar ran sefydliadau rheoleiddiedig.

Gwrthod

233. Os nad oes gan y sefydliad gynllun mynediad a ffioedd cymeradwy yn dilyn proses gymeradwyo CCAUC fel y nodir uchod, caiff barhau i drafod â CCAUC ac/neu ddilyn y prosesau a nodir isod, ac a ddisgrifir ar ein [gwefan](#), ynghylch prosesau CCAUC ar gyfer pan fydd yn bwriadu gwrthod cynllun.
234. Os nad yw CCAUC yn fodlon bod y sefydliad yn bodloni ei feini prawf ar gyfer cymeradwyo cynllun ar ôl cwblhau proses iteru resymol, bydd yn ysgrifennu at y corff llywodraethu (anfonir at Gadeirydd a Chlerc y corff llywodraethu a chopi i'r Swyddog Atebol) i ddatgan y rhesymau dros fwriad i wrthod y cynllun.
235. Ni fydd CCAUC yn cymeradwyo cynllun mynediad a ffioedd os:

²⁰ Mae'r cyfarwyddyd hwn yn dynodi bod gwybodaeth reoleiddiol (adran un) y cynllun mynediad a ffioedd ar gyfer CCAUC ac na ddylid ei gyhoeddi.

- ystyrir bod yr wybodaeth reoleiddio a ddarparwyd gan y sefydliad yn annigonol²¹,
- yw terfynau ffioedd y sefydliad yn uwch na'r uchafswm ffioedd perthnasol a nodwyd yn y ddeddfwriaeth²², neu
- nad yw corff llywodraethu'r sefydliad wedi cadarnhau ei fod yn cymeradwyo'r cynllun.

236. Ni chaiff CCAUC gymeradwyo cynllun mynediad a ffioedd os yw'n credu nad yw'r meini prawf ar gyfer asesu'r cynlluniau mynediad a ffioedd wedi'u bodloni'n ddigonol.

237. Os yw CCAUC yn bwriadu gwrthod cynllun mynediad a ffioedd, bydd yn rhaid iddo anfon rhybudd o hynny at gorff llywodraethu'r sefydliad. Mae'r diagram ar ein [gwefan](#) yn dangos camau'r broses o roi rhybudd.

Gadael y system reoleiddiol

238. Gall sefydliad a reoleiddir adael y system reoleiddiol drwy dair ffordd, gan gynnwys:

- peidio â gwneud cais i gymeradwyo cynllun mynediad a ffioedd,²³
- peidio derbyn cymeradwyaeth ar gyfer cais am gynllun, neu
- tynnu cynllun wedi'i gymeradwyo'n ôl.

239. Mae gan CCAUC ddyletswydd statudol i dynnu cymeradwyaeth ar gyfer cynllun mynediad a ffioedd yn ei hôl os nad yw bellach yn fodlon bod y sefydliad yn bodloni'r diffiniad o sefydliad a reoleiddir. Hefyd mae gan CCAUC bwerau i dynnu ei gymeradwyaeth ar gyfer cynllun mynediad a ffioedd yn ôl o dan amgylchiadau eraill.²⁴

240. Os bydd sefydliad a reoleiddir yn gadael y system:

- mae pwerau CCAUC mewn perthynas ag ansawdd yr addysg a ddarperir gan, neu ar ran, y sefydliad yn parhau'n berthnasol yng nghyswllt cyrsiau dynodedig y sefydliad.
- caiff CCAUC roi cyfarwyddyd i'r corff llywodraethu gymryd (neu beidio â chymryd) camau penodol er mwyn ymdrin â gofyniad cyffredinol mewn cynllun mynediad a ffioedd, neu atal methiant i gydymffurfio â'r gofyniad hwnnw, os oedd y cynllun mynediad a ffioedd mewn grym ar adeg y methiant hwnnw.
- bydd yn ofynnol i gorff llywodraethu'r sefydliad sicrhau bod ffioedd, ar gyfer blynyddoedd academiaidd sy'n dechrau yn ystod y cyfnod yr oedd ei gynllun ffioedd yn berthnasol, yn parhau i gydymffurfio â'r terfyn ffioedd perthnasol.
- bydd yn ofynnol i gorff llywodraethu'r sefydliad sicrhau na fydd myfyrwyr yn colli gwarchodaeth dros ffioedd, a bod y ffioedd ar gyfer y blynyddoedd

²¹ Gwybodaeth am fod yn sefydliad yng Nghymru, darparu addysg uwch a bod yn elusen sy'n hyfyw yn ariannol, gyda threfniadau cadarn ar gyfer trefnu a rheoli ei faterion ariannol ac ansawdd yr addysg a ddarperir ganddo neu ar ei ran.

²² [Rheoliadau Addysg Uwch \(Symbiau\) \(Cymru\) 2015](#)

²³ Bydd CCAUC yn gwahodd ceisiadau cynlluniau mynediad a ffioedd yn flynyddol, oni cheir rhybudd pellach.

²⁴ Nodir pwerau ymyrryd CCAUC yn ei [Ddatganiad o Ymyriad](#).

academaidd sy'n dechrau yn ystod cyfnod ei gynllun mynediad a ffioedd diweddaraf yn parhau i gydymffurfio â'r terfyn ffioedd perthnasol hyd ddiwedd cyrsiau'r myfyrwyr.

Amrywio cynllun mynediad a ffioedd

241. Tra mae cynlluniau mynediad a ffioedd mewn grym²⁵, rhaid i sefydliadau a reoleiddir roi gwybod ar unwaith i CCAUC am unrhyw newidiadau i'w statws elusennol, eu prif leoliad neu eu gweithgareddau a all effeithio ar fodloni'r meini prawf o dan Adran 2(3) o Ddeddf 2015.
242. Os oes unrhyw newidiadau i gynlluniau mynediad a ffioedd cymeradwy a'u hymrwymiaadau, dylai sefydliadau a reoleiddir drafod goblygiadau'r newidiadau hyn gyda CCAUC a'u cynrychiolwyr myfyrwyr cyn gynted â phosib, a chyn gwneud unrhyw newidiadau. Gall newidiadau o'r fath gynnwys y canlynol, ond nid ydynt wedi'u cyfyngu iddynt:
- newidiadau i ffioedd dysgu,
 - darpariaeth mewn lleoliadau newydd,
 - trefniadau newydd neu ddiwygiedig ar gyfer addysg uwch a ddarperir ar ran sefydliadau;
 - neu lle bo corff sy'n darparu dysgu ac addysgu ar ran sefydliadau'n peidio â bod yn elusen tra bo'r cynllun mynediad a ffioedd mewn grym.
243. Bydd yn rhaid wrth gytundeb CCAUC er mwyn newid cynlluniau mynediad a ffioedd.
244. Bydd yn rhaid anrhydeddu unrhyw ymrwymiaadau ariannol a wnaed i fyfyrwyr mewn cynlluniau a gymeradwywyd gan CCAUC, ac ni cheir eu hamrywio.
245. Os bydd cynllun wedi'i gyhoeddi'n cael ei amrywio gyda chymeradwyaeth CCAUC, mae'n rhaid i'r sefydliad gyhoeddi ei gynllun diwygiedig a chynnwys dyddiad diwygiedig y gymeradwyaeth gan CCAUC a'r dyddiad cyhoeddi diwygiedig. Dylai fersiwn o'r cynllun gwreiddiol fod ar gael bob amser ar gais. Os na chaiff amrywiad i gynllun ei gymeradwyo gan CCAUC, bydd y cynllun presennol sydd wedi'i gyhoeddi'n sefyll.
246. Ceir cyfarwyddyd manwl ar amrywio cynllun mynediad a ffioedd ar [wefan CCAUC](#).
247. Rhaid i amrywiadau sy'n cynnwys newidiadau i lefelau ffioedd gael eu gwneud cyn i fyfyrwyr gael eu derbyn ar gwrs. Lle bo'r sefydliad yn gofyn am amrywiad gyda goleg ar ehangu'r cyrsiau cymwysedig a gynigir, ni cheir derbyn myfyrwyr ar y cyrsiau nes bo'r amrywiad wedi'i gymeradwyo gan CCAUC, a'r cyrsiau a'r ffioedd cytunedig wedi'u cadarnhau. Bydd yn rhaid i sefydliadau sicrhau bod ymrwymiaadau a wnaed i fyfyrwyr yn gysylltiedig â'u ffioedd yn cael eu hanrhydeddu a chydymffurfio â chanllawiau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd.

²⁵ Y cyfnod pan fydd cynllun "mewn grym" yw'r cyfnod sy'n dechrau ar ddyddiad cymeradwyo'r cynllun ac sy'n dod i ben: naill ai ar y diwrnod pan fydd y cyfnod y mae'r cynllun yn berthnasol iddo'n dod i ben (h.y. diwedd y flwyddyn academaidd y mae'r cynllun yn weithredol ynddi); neu ddyddiad hysbysiad tynnu'n ôl o dan adran 38 neu 39, pa un bynnag o'r rhain sy'n digwydd gynharaf.

Atodiad 1: Ymrwymiadau sefydliadau a reoleiddir

1. Wrth wneud cais llwyddiannus am gynllun mynediad a ffioedd mae'n rhaid i gyrff llywodraethu'r holl sefydliadau a reoleiddir:
 - sicrhau nad yw ffioedd cyrsiau rheoledig yn uwch na'r terfyn ffioedd perthnasol
 - cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd a roddir yn gyfreithlon gan CCAUC
 - ystyried unrhyw ganllawiau gan CCAUC wrth gydymffurfio â chyfarwyddyd a roddwyd gan CCAUC o ran cydymffurfio â therfynau ffioedd
 - cydymffurfio â gofynion cyffredinol cynllun mynediad a ffioedd cymeradwy
 - cydweithredu â CCAUC wrth arfer ei ddyletswyddau i fonitro a gwerthuso effeithiolrwydd a chydymffurfiaeth â chynllun
 - ystyried cyfarwyddyd CCAUC ynghylch ansawdd
 - ystyried cyngor ynghylch darpariaeth sydd yn annigonol, neu'n debygol o ddod yn annigonol, o ran ansawdd.
 - cydweithredu â dyletswydd CCAUC i asesu ansawdd ei addysg a'r addysg a ddarperir ar ei ran gan ddarparwydd allanol
 - cydymffurfio ag unrhyw ofyniad a orfodir gan y cod rheolaeth ariannol
 - cydymffurfio â chyfarwyddyd mewn perthynas â methu cydymffurfio â'r cod
 - ystyried unrhyw gyfarwyddyd a geir yn y cod rheolaeth ariannol
 - cydweithredu â swyddogaethau CCAUC o ran methiant i gydymffurfio â'r cod
 - cydweithredu â dyletswyddau CCAUC i fonitro cydymffurfiaeth â'r cod.

Ffurflen Gais Cynllun Mynediad a Ffioedd

Enw'r sefydliad :	
Rhif cofrestru darparydd y DU:	

	Prif gyswllt o fewn y sefydliad	Cyswllt ychwanegol o fewn y sefydliad
Enw cyswllt:		
Teitl swydd:	Disgwylir i'r unigolyn hwn fod yn aelod o'r uwch dîm rheoli sy'n atebol i'r corff llywodraethu am oruchwylio'r cais cynllun mynediad a ffioedd. Anfonir pob gohebiaeth at y cyswllt hwn.	Disgwylir i'r unigolyn hwn fod yn aelod o staff â chyfrifoldeb dirprwyol dros ddatblygu'r cynllun mynediad a ffioedd. Bydd y cyswllt hwn yn cael ei gopïo i bob gohebiaeth.
Rhif Ffon:		
Cyfeiriad e-bost :		

Nid yw'n ofynnol i'r sefydliad gyhoeddi'r dudalen hon.

Rhan Un: Gwybodaeth Reoleiddio (nid oes rhaid cyhoeddi hyn)

Adran 1: A yw ymgeisydd y cynllun mynediad a ffioedd yn sefydliad?	
<p>A yw ymgeisydd y cynllun mynediad a ffioedd yn un o'r canlynol?</p> <ul style="list-style-type: none"> Prifysgol a ffurfiwyd drwy Siarter Frenhinol, Corfforaeth Addysg Uwch Corfforaeth Addysg Bellach corff sy'n hyfforddi aelodau o'r gweithlu addysg. 	<p>Ydy/Nac ydy (dileer fel bo'n berthnasol)</p>
<p>Os 'ydy' yw'r ateb i'r uchod, pa fath o sefydliad yw ymgeisydd y cynllun mynediad a ffioedd?</p>	<ul style="list-style-type: none"> Prifysgol a ffurfiwyd drwy Siarter Frenhinol Corfforaeth Addysg Uwch Corfforaeth Addysg Bellach corff sy'n hyfforddi aelodau o'r gweithlu addysg. <p>(dylid dileu fel bo'n berthnasol a rhoi dolen gyswllt i ddogfennau sy'n tystio i'r datganiad hwn, neu gyflwyno'r dogfennau os nad ydynt ar gael i'r cyhoedd)</p>
<p>Os 'nac ydy' yw'r ateb i'r uchod, cadarnhewch y dyddiad pan gafodd ymgeisydd y cynllun mynediad a ffioedd ei ddynodi'n sefydliad gan Lywodraeth Cymru. Atodwch gopi hefyd o'r ohebiaeth gan Lywodraeth Cymru yn rhan o'r cais.</p>	<p>DD/MM/BBBB</p>
Adran 2: A yw'r sefydliad wedi'i leoli'n llwyr neu'n bennaf yng Nghymru?	
<p>Prif gyfeiriad a'r cyfeiriad cyfreithiol os yw'n wahanol</p>	
<p>A yw'r sefydliad yn gweithredu o dan unrhyw enwau eraill?</p>	

Cadarnhau lleoliad yr holl weithgareddau dysgu ac addysgu a faint o fyfyrwyr sy'n mynychu cyrsiau yn y lleoliadau hynny.	Rhowch yr wybodaeth hon yn y tabl 'Lleoliadau' yn Atodiad B.
Lleoliad yr holl weithgareddau eraill (nad ydynt yn weithgareddau dysgu ac addysgu)	Rhowch yr wybodaeth hon yn y tabl 'Lleoliadau' yn Atodiad B.
Adran 3: A yw'r sefydliad yn darparu addysg uwch (AU)?	
Rhowch ddisgrifiad o'r addysg uwch a ddarperir gan y sefydliad yng Nghymru, gan gynnwys y dyfarniadau a ddarperir.	[Os yw'r sefydliad yn tanysgrifio ac yn dychwelyd data i HESA, byddwn yn defnyddio'r data hynny, felly gellir gadael yr adran hon yn wag.]
Nodwch y niferoedd o fyfyrwyr cyfwerth ag amser llawn (CALI) yng Nghymru a allai fod yn dilyn y cyrsiau addysg uwch ar ddyddiad y cais ac am y tair blynedd cyn hynny.	[Os yw'r sefydliad yn tanysgrifio ac yn dychwelyd data i HESA, byddwn yn defnyddio'r data hynny, felly gellir gadael yr adran hon yn wag.]
A yw'r sefydliad yn darparu cyrsiau, sydd oddi mewn i gwmpas y cynllun mynediad a ffioedd, sy'n arwain at gymhwyster y mae'n ei ddyfarnu?	Ydy/Nac ydy
Os 'nac ydy' yw'r ateb, cadarnhewch pa sefydliad sy'n dyfarnu, a natur y trefniant â'r corff dyfarnu.	<p>Mae'n rhaid i'r sefydliad sy'n dyfarnu naill ai fod yn brifysgol yn y Deyrnas Unedig, Pearson neu Awdurdod Cymwysterau'r Alban.</p> <p>Os yw'r sefydliad dyfarnu yn brifysgol, mae'n rhaid i'r sefydliad sy'n gwneud cais am gynllun ffioedd a mynediad fod â rheolaeth dros y cwrs, ac mae'n rhaid cadarnhau hynny yma.</p> <p>Os Pearson neu Awdurdod Cymwysterau'r Alban yw'r sefydliad sy'n dyfarnu, nid oes angen unrhyw eglurhad pellach.</p> <p>Mae'n rhaid cyflwyno cytundebau rhwng y sefydliad sy'n darparu'r cwrs cymwys a'r sefydliad dyfarnu gyda'r cais. Dylid nodi enwau'r ffeiliau perthnasol yma.</p>

Adran 4: A yw'r sefydliad yn elusen?

Cadarnhad bod y sefydliad yn elusen	Ydy/Nac ydy Mae'n rhaid i'r sefydliad fod yn elusen. Mae pob Prifysgol Siartredig yng Nghymru a'r holl Gorfforaethau Addysg Uwch yng Nghymru yn elusennau cofrestredig.
Nodwch rif cofrestru elusen y sefydliad ac enw a chyfeiriad y corff sy'n rheoleiddio'r elusen.	
Os nad yw'r sefydliad wedi cofrestru gyda chorff rheoleiddio elusennau, rhowch resymau am hynny ynghyd â chopi o unrhyw ddogfen lywodraethu.	
Nodwch enwau, cyfeiriad a rhif cofrestru elusen cyrff eraill sy'n darparu cyrsiau gradd amser llawn ar ran y sefydliad.	Bydd hyn wedi'i nodi yn y tabl 'Lleoliadau' yn Atodiad B

Adran 5: A yw'r sefydliad yn hyfyw o safbwynt ariannol?

Strwythur y sefydliad fel grŵp corfforaethol, gan gynnwys manylion yr holl gwmnïau neu sefydliadau o fewn y grŵp (gan gynnwys is-gwmnïau, rhiant-gwmnïau neu gwmnïau daliannol a mentrau cysylltiol neu ar y cyd).	Dylid cyfeirio at deitl y dogfennau a gyflwynir - dylid cynnwys unrhyw naratif i gefnogi'r dogfennau yn yr adran hon.
Strategaeth ariannol ddiweddaraf y sefydliad neu gadarnhad mai'r strategaeth ariannol ddiweddaraf a gyflwynwyd i CCAUC yw'r strategaeth gyfredol. Yn rhan o'r wybodaeth dylid nodi sut mae'r sefydliad yn asesu ac yn adolygu ei gynaliadwyedd, gan gynnwys defnyddio asesiadau cynaliadwyedd.	Dylid cyfeirio at deitl y dogfennau a gyflwynir - dylid cynnwys unrhyw naratif i gefnogi'r dogfennau yn yr adran hon.

Os yw'r sefydliad yn brifysgol a reoleiddir yn gyfredol gan CCAUC

Gwybodaeth am ragolygon ariannol i gyflenwi gwybodaeth a gyflwynwyd eisoes i CCAUC.	Mae'n rhaid i'r sefydliad lenwi'r tabl 'gwybodaeth ariannol' yn Atodiad B.
Os <u>nad</u> yw'r sefydliad yn brifysgol a reoleiddir yn gyfredol gan CCAUC	
Datganiadau ariannol archwiledig y 3 blynedd diwethaf.	Dylid cyfeirio at deitl y dogfennau a gyflwynir - dylid cynnwys unrhyw naratif i gefnogi'r dogfennau yn yr adran hon.
Adroddiadau archwilio ariannol blynyddol y 3 blynedd diwethaf.	Dylid cyfeirio at deitl y dogfennau a gyflwynir - dylid cynnwys unrhyw naratif i gefnogi'r dogfennau yn yr adran hon.
<p>Rhagolygon ariannol sy'n cynnwys amcangyfrif o'r flwyddyn gyfredol yn ogystal â rhagolygon tair blynedd o leiaf (wedi'u cefnogi drwy warant rhiant-gwmni os oes angen) neu gyfeiriad at dystiolaeth a gyflwynwyd yn flaenorol i CCAUC yn dangos bod ganddo:</p> <ul style="list-style-type: none"> • lif arian digonol i barhau'n hydal, hynny yw, digon o hylifedd i dalu dyledion fel maent yn dod yn ddyledus • mantolen ddigonol, hynny yw, eu bod yn cynnal sefyllfa cyfanswm asedau net heb greu diffygion pe bai'r rhain yn arwain at sefyllfa cyfanswm atebolrwydd net. 	Os yw'r sefydliad yn goleg ac yn cyflwyno rhagolygon i Lywodraeth Cymru, gellir defnyddio'r rheiny.
Adran 6: A yw materion ariannol y sefydliad wedi'u rheoli'n dda?	
A oes gan y sefydliad brosesau rheoli ariannol y llywodraethir arnynt ac a reolir yn ddigonol ac yn effeithiol?	<p>Dylai'r wybodaeth gynnwys</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adroddiadau archwilio mewnol blynyddol y 3 blynedd diwethaf, sy'n rhoi lefelau sicrwydd ynghylch rheolaethau ariannol craidd • Rhagolygon ariannol am y 3 blynedd diwethaf

	<ul style="list-style-type: none"> Gwybodaeth a sicrhawyd o'n prosesau sicrwydd ansawdd ynghylch strwythurau llywodraethu, gan gynnwys y pwyllgor archwilio, y pwyllgor cyllid neu bwyllgor cyfatebol.
Sut mae'r sefydliad yn cynllunio a rheoli gweithgareddau er mwyn parhau i fod yn hyfyw?	Darparwch wybodaeth am broses y sefydliad er mwyn pennu a monitro cyllidebau, a'r broses ar gyfer cynhyrchu, dosbarthu a monitro cyfrifon rheolwyr.
A oes gan y sefydliad systemau cadarn a chynhwysfawr ar gyfer rheoli risg a rheolaeth fewnol?	<p>Dylai'r wybodaeth gynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Adroddiadau archwilio mewnol blynyddol y 3 blynedd diwethaf, yn rhoi lefelau sicrwydd am brosesau rheoli risg Adroddiadau archwilio mewnol blynyddol y 3 blynedd diwethaf, yn rhoi barn gyffredinol am y rheolaeth fewnol
A oes gan y sefydliad drefniadau effeithiol ar gyfer rheoli data ac ansawdd data, ac er mwyn sicrhau'r data a ddefnyddir i wneud penderfyniadau'n fewnol?	<p>Dylai'r wybodaeth gynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Adroddiadau archwiliad mewnol y 3 blynedd diwethaf ar systemau a phrosesau data AU Yr archwiliad data allanol diweddaraf
A oes gan y sefydliad gyfrifon rheoli rheolaidd, dibynadwy, amserol a digonol neu wybodaeth sydd yr un mor gadarn i fonitro perfformiad gweithredol ac ariannol?	Dylai'r sefydliad roi trosolwg cryno o'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn ei gyfrifon rheoli fel arfer, pa mor aml y caiff yr wybodaeth honno ei chynhyrchu, a chyda phwy y rhennir yr wybodaeth. Os nad yw'r sefydliad yn paratoi cyfrifon rheoli, disgrifiwch unrhyw brosesau eraill perthnasol.
A yw'r sefydliad yn adrodd gwybodaeth gywir a chynhwysfawr yn rheolaidd wrth uwch reolwyr priodol, a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu?	<p>Dylai'r wybodaeth gynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Adroddiadau archwilio mewnol blynyddol y 3 blynedd diwethaf, yn rhoi lefelau sicrwydd ar gyfer prosesau llywodraethu

	<ul style="list-style-type: none"> • Yr adolygiad diwethaf o effeithiolrwydd llywodraethu, os cynhaliwyd yr adolygiad hwnnw'n allanol
<p>A yw'r sefydliad yn rheoli ei ystâd mewn modd cynaliadwy, yn unol â strategaeth ystadau?</p>	<p>Byddai strategaeth ystadau neu ddogfen gyfatebol, ynghyd â gwybodaeth am fonitro perfformiad ystadau o gymorth i dystio bod yr ystâd yn cael ei rheoli mewn modd cynaliadwy</p>
<p>A yw'r sefydliad yn gallu bodloni holl ofynion CCAUC o ran casglu ac adrodd data, gan gynnwys yr holl ofynion hynny a weinyddir gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) a chyrrff eraill, fel sy'n ofynnol gan CCAUC?</p>	<p>[Os yw'r sefydliad eisoes yn sefydliad a reoleiddir, byddwn yn defnyddio'r data a ganlyn (yn amodol ar gadarnhad):</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adroddiadau archwiliad mewnol y 3 blynedd diwethaf ar systemau a phrosesu data AU • Yr archwiliad data allanol diweddaraf • Arolwg blynyddol HESES • Data a ddarperir i LLWR • Data myfyrwyr, cyrchfan myfyrwyr, staff, stadau, cyllid a busnes a rhyngweithio cymunedol a ddarparwyd i HESA a'r • Ffurflen sicrwydd flynyddol.]
<p>A yw'r sefydliad yn cydymffurfio ag egwyddorion y Cod Llywodraethu Addysg Uwch (Y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgol, Rhagfyr 2014) oni ellir rhoi tystiolaeth o gadw at drefniadau amgen sydd yr un mor gadarn.</p>	<p>[Dylech ddiwygio/dileu'r datganiadau a ganlyn <u>a</u> darparu gwybodaeth ychwanegol, o dan (ii) isod, os yw'n briodol:</p> <p>(i) Mae'r sefydliad yn cadarnhau ei fod yn cydymffurfio / nad yw'n cydymffurfio ag egwyddorion y Cod Llywodraethu Addysg Uwch (Y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgol (Rhagfyr 2014).</p> <p>(ii) Mae'r sefydliad yn cadw at drefniadau llywodraethu amgen, sydd yr un mor gadarn, ac mae'r wybodaeth ganlynol yn esbonio'r trefniadau hyn.</p> <p>(iii) Ni all y sefydliad ddangos ei fod yn cadw at drefniadau llywodraethu cadarn.]</p>

<p>A yw'r sefydliad yn cydymffurfio â'r gofynion statudol o ran archwiliadau allanol ac wedi'i berchnogi, ei reoli a'i gynnal gan 'unigolion addas a phriodol' drwy ddarparu:</p> <ul style="list-style-type: none"> tystiolaeth o fanylion y sefydliad a manylion unigolion allweddol (er enghraifft, y Corff Llywodraethu, yr Is-ganghellor, y Pennaeth, cyfarwyddwyr, cyfranddalwyr, ymddiriedolwyr), ynghyd â'u sgiliau a'u profiad a cadarnhad bod y cyfarwyddwyr (os yw'n gwmni) neu'r ymddiriedolwyr (os yw'n elusen) yn gymwys i weithredu naill ai fel cyfarwyddwyr neu ymddiriedolwyr ac nad ydynt wedi'u hanghymhwyso rhag gweithredu fel cyfarwyddwyr neu ymddiriedolwyr 	<p>[Os yw'r sefydliad eisoes yn sefydliad a reoleiddir, nid oes angen yr wybodaeth hon arnom</p> <p>O ran manylion y sefydliad, dylai sefydliadau heb eu rheoleiddio ddarparu siarter neu dystysgrif corfforaeth er enghraifft.</p> <p>O ran unigolion, dylai sefydliadau heb eu rheoleiddio ddarparu digon o wybodaeth am unigolion allweddol fel bo modd cynnal chwiliadau yng nghofnodion Tŷ'r Cwmnïau a'r Comisiwn Elusennau, gan gynnwys o restrau o gyfarwyddwyr/ymddiriedolwyr gwaharddedig.]</p>
--	--

Adran 7: A yw'r addysg a ddarperir gan ac ar ran y sefydliad yn ddigonol i fodloni anghenion myfyrwyr?

<p>Cadarnhad bod gweithdrefnau sicrwydd ansawdd mewnol wedi'u sefydlu ar gyfer ei holl ddarpariaeth addysg.</p>	<p>Cadarnhad bod gweithdrefnau sicrwydd ansawdd mewnol wedi'u sefydlu ar gyfer yr holl ddarpariaeth addysg.</p>
<p>Datganiad yn cadarnhau bod y sefydliad wedi derbyn adolygiad addysg uwch llwyddiannus (gan gynnwys addysg uwch a ddarperir ar ei ran). Dylech gynnwys dolen gyswllt i'r adroddiad(au).</p>	<p>Dylid rhoi datganiad yma.</p>
<p>Os yw sefydliad yn gweithio drwy ganlyniadau adolygiad er mwyn ymdrin â materion a nodwyd, dylech ddatgan hynny.</p>	<p>Os yw sefydliadau sy'n cael eu rheoleiddio ar hyn o bryd wrthi'n mynd drwy ganlyniadau adolygiad er mwyn rhoi sylw i faterion a nodwyd, yn unol â'r gweithdrefnau arferol, byddem yn disgwyl iddynt ddatgan yn fanwl sut maent yn mynd i'r afael, neu'n bwriadu mynd i'r afael â'r canlyniadau hynny. Byddem yn disgwyl i'r camau gweithredu hyn gael eu cwblhau o fewn 12 mis.</p>

<p>Datganiad yn cadarnhau bod y sefydliad wedi derbyn adolygiad/arolygiad(au) llwyddiannus o'i addysg nad yw'n addysg-uwch (gan gynnwys addysg nad yw'n addysg uwch a ddarperir ar ei ran). Dylech gynnwys dolen gyswllt i'r adroddiad(au) a gwybodaeth am ddyddiad yr adolygiad/arolygiad.</p>	<p>Dylid rhoi datganiad yma.</p>
<p>Os yw sefydliad yn gweithio drwy ganlyniadau adolygiad/arolwg i fynd i'r afael â materion y tynnwyd sylw atynt, rhaid nodi hynny.</p>	<p>Os yw sefydliadau sy'n cael eu rheoleiddio ar hyn o bryd wrthi'n mynd drwy ganlyniadau adolygiad er mwyn rhoi sylw i faterion a nodwyd, yn unol â'r gweithdrefnau arferol, byddem yn disgwyl iddynt ddatgan yn fanwl sut maent yn mynd i'r afael, neu'n bwriadu mynd i'r afael â'r canlyniadau hynny. Byddem yn disgwyl i'r camau gweithredu hyn gael eu cwblhau o fewn 12 mis.</p>
